

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty Llwynhelyg/Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel
Dda/Wardiau 7 ac 11

Dyddiad arolygu: 4 a 5 Chwefror 2020

Dyddiad cyhoeddi: 10 Awst 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	20
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	33
4.	Beth nesaf?	40
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	41
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	42
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	43
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	51

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i dylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Llwynhelyg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 4 a 5 Chwefror 2020. Ymwelwyd â'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 7 (Diabetes a Gastroenteroleg)
- Ward 11 (Strôc ac Adsefydlu).

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Uwch-arolygydd Gofal Iechyd o AGIC, un Arolygydd Gofal Iechyd o AGIC, dwy nyrs glinigol sy'n adolygwyr cymheiriaid ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal parchus ac urddasol i'r cleifion.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol i gleifion yn unol â chanllawiau cenedlaethol a'r Safonau Iechyd a Gofal

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus â'r gofal roeddent yn ei gael
- Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn gwrtais
- Roedd y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal i gleifion
- Gwelsom ddogfennaeth gynhwysfawr yn gysylltiedig ag asesiadau o'r risg o gwmpo, asesiadau ymataliaeth a chynlluniau gofal y geg ar y ddwy ward
- Gwelsom ddefnydd priodol o gyfarpar diogelu personol ar y ddwy ward
- Gwelsom fod y staff a oedd yn dysgu Cymraeg yn defnyddio bathodyn 'gwaith iaith' ar ward 7
- Gwelsom nodiadau achos cleifion a oedd wedi'u strwythuro'n dda gyda rhanwyr pynciau ar ward 7
- Roedd ystafell ddydd fawr ar ward 11 yn cael ei defnyddio ar gyfer therapi galwedigaethol, ffisiotherapi a chlwb brecwast y cleifion
- Roedd clinig perthnasau wythnosol ar ward 11 yn hybu cyfathrebu effeithiol

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyfrinachedd cleifion wrth ddefnyddio'r 'bwrdd cipolwg ar gleifion' ar ward 7 a defnyddio'r bwrdd yn effeithiol ar ward 11
- Cynlluniau rhyddhau cleifion ar draws y ddwy ward
- Glendid yn y meysydd a nodwyd ar bob ward

- Defnydd priodol o'r ystafell ddydd i gleifion ar ward 7
- Darparu bwyd yn amserol ar y ddwy ward
- Urddas cleifion drwy ddarparu toiledau a chyfleusterau cawod dynodedig i ddynion a menywod ar y ddwy ward
- Sgrinio amserol ar gyfer sepsis
- Ymateb i glychau galw
- Darparu gwybodaeth yn ymwneud â threfniadau eiriolaeth a Chynghorau Iechyd Cymuned.

Roedd gennym rai pryderon uniongyrchol yr aed i'r afael â nhw o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Roedd y rhain mewn perthynas â'r canlynol:

- Sicrhau bod digon o droliâu dadebru brys ar y ddwy ward a gwirio cyfarpar a nwyddau traul
- Storio cyffuriau a reolir yn ddiogel a dogfennu'r gwiriadau a wneir ohonynt ar ward 7 a dogfennu gwiriadau o dymereddau'r oergell ar ward 11.
- Gofyniad i sicrhau bod drysau tân yn cael eu gosod ar ward 7 yn unol â hysbysiad gorfodi a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Tân
- Diffyg bandiau adnabod cleifion ar arddyrnau pedwar claf ar y ddwy ward
- Diffyg cofnodion gwasanaethu ar gyfer gwelyau ar ward 11 ac roedd gwiriad gwasanaethu'r peiriant Electrocardiogram ar ward 11 wedi dyddio.

Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth o tua 384,000 i gyd, ledled Sir Gaerfyrddin (183,936), Ceredigion (79,488) a Sir Benfro (120,576). Mae'n darparu gwasanaethau Acíwt, Sylfaenol, Cymunedol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu drwy Ysbytai Cyffredinol a Chymunedol, Canolfannau Iechyd, Meddygon Teulu, Deintyddion, Fferyllwyr, Optometryddion a safleoedd eraill.

Mae Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg yn Hwlfordd, Sir Benfro, yn ysbyty aciwt yn rhan fwyaf deheuol Cymru ac mae'n darparu gofal aciwt, brys a dewisol. Mae'r ysbyty yn gweithredu adran achosion brys 24 awr, llawdriniaeth gyffredinol, llawdriniaeth orthopedig a thrawma, gynaeoleg ddewisol, gofal y galon, gwasanaethau meddygol a radioleg cyffredinol ac uned a arweinir gan fydwagedd. Mae darpariaeth ar gyfer Uned Asesu Peditrig 12 awr a gefnogir gan gerbyd ambiwlans penodedig.

Ward 7

Mae Ward 7 yn ward feddygol gyffredinol gyda diddordeb arbenigol mewn diabetes a gastroenteroleg. Ar adeg yr arolygiad, roedd 28 o gleifion ar y ward. Mae gan y ward bedair cilfan sy'n cynnwys cyfanswm o 22 o welyau a chwe ystafell ochr sengl. Mae un o'r cilfannau yn cynnwys toiled a chawod ac roedd pob un o'r ystafelloedd sengl yn cynnwys toiled.

Ward 11

Mae ward 11 yn uned strôc aciwt â phedwar gwely ac yn ward adsefydlu ar ôl strôc â 17 o welyau. Caiff rhai cleifion eu derbyn drwy'r adran achosion brys yn dilyn derbyniad brys neu heb ei gynllunio.

Ar adeg yr arolygiad, roedd 19 o gleifion yn cael gofal ar gyfer cyflyrau aciwt ac adsefydlu. Mae gan y ward dair cilfan sy'n cynnwys pedwar gwely, un gilfan sy'n cynnwys chwe gwely a thair ystafell ochr sengl. Dywedodd rheolwr y ward

wrthym ei fod yn ceisio cadw un gwely yn wag ar gyfer achosion brys o thrombolysis¹.

¹ Thrombolysis yw'r driniaeth i doddi clotiau peryglus yn y pibellau gwaed, gwella llif y gwaed ac atal niwed i feinweoedd ac organau.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym fod eu profiad yn dda iawn. Gwnaethant ddweud wrthym fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym fod y staff wedi gwrandao arnynt ac wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall.

Gwnaethom nodi bod yr awyrgylch yn hamddenol ar y ddwy ward. Roedd y staff yn brysur, ond hefyd yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 11 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â nifer o gleifion yn ystod yr arolygiad. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae pob aelod o'r staff yn gweithio'n galed iawn ac maent bob amser yn gwrtais”

“Rwyf ar ward gyda 3 dyn, ac fel menyw, dwi ddim yn hoffi hyn, felly rydw i wedi gofyn am gael fy symud os yw'n bosibl”

“Mae angen newid y bwyd a sicrhau ei fod o safon well”

Dywedodd y cleifion fod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn dda iawn. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn gwrtais a'u bod yn eu cyfarch gan ddefnyddio eu henw dewisol.

Roedd y cleifion yn cytuno bod y staff yn darparu gofal pan fo angen. Er bod wardiau 7 ac 11 yn brysur, roedd yr amgylchedd yn hamddenol.

Cadw'n iach

Roedd y ddwy ward yn darparu gwybodaeth am hybu iechyd a gwybodaeth arall yn ymwneud ag iechyd i gleifion ac ymwelwyr, er i ni nodi nad oedd gwybodaeth ar gael am roi'r gorau i smygu a sepsis.

Mae gan Ward 11 ystafell ddydd fawr lle y gall cleifion eistedd a bwyta brecwast. Mae'r ystafell hon hefyd yn darparu cyfleusterau campfa a chaiff ei defnyddio gan y staff therapi galwedigaethol a ffisiotherapi er mwyn darparu gofal i gleifion. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn ddiolchgar fod yr ystafell hon ar gael am ei bod yn rhoi rhywle iddynt eistedd a sgwrsio. Roedd ystafell ddydd y cleifion ar ward 7 yn cael ei defnyddio fel ystafell lungopio y staff.

Dywedodd y cleifion ar y ddwy ward wrthym fod y staff yn eu hannog i godi o'r gwely ar yr adeg briodol ac yn eu helpu i olchi a gwisgo. Dywedodd y cleifion ar ward 11 fod y cynorthwywyr gofal iechyd yn cynnig bath neu gawod iddynt neu'n cynnig eu golchi'n llawn wrth ymyl eu gwely.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod gwybodaeth sy'n ymwneud â rhoi'r gorau i smygu a sepsis ar gael ar y ddwy ward.

Gofal ag urddas

Roedd yr holiaduron yn gofyn i'r cleifion a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am staff yr ysbyty. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn cytuno bod y gofal a'r driniaeth a roddwyd ar ward 7 a ward 11 yn dda iawn a bod y staff yn garedig, yn barchus ac yn gwrtais. Nododd un claf:

“Mae pob aelod o'r staff yn gweithio'n galed iawn ac maent bob amser yn gwrtais”.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn eu cyfarch gan ddefnyddio eu henwau dewisol a chytunodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn cael cynnig yr opsiwn o gyfathrebu yn eu dewis iaith.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn siarad â nhw yn eu dewis iaith. Gwelsom fod staff ar ward 7 yn gwisgo bathodyn 'gwaith iaith' ar eu gwisg sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg, a gwelsom eu bod yn siarad â chleifion yn Gymraeg. Dywedodd rheolwr ward 11 wrthym fod y staff a oedd yn siarad Cymraeg yn gwisgo'r bathodyn pan fyddant ar ddyletswydd. Dywedwyd wrthym fod dewis iaith y cleifion yn cael ei nodi yn eu cofnodion wrth iddynt gael eu derbyn ac yn cael ei nodi gan staff yn ystod y broses drosglwyddo. Gwnaethom nodi bod angen i adran Cynllunio'r Gweithlu adolygu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y bwrdd iechyd ar 30/11/19 ac felly roedd wedi dyddio.

Gwelsom fod y staff yn amyneddgar ac yn garedig gyda'r cleifion ar y ddwy ward ac yn hybu preifatrwydd ac urddas drwy gau'r llenni o amgylch gwelyau'r cleifion. Fodd bynnag, gellid clywed trafodaethau â'r cleifion drwy'r llenni ac felly nid oeddent yn gwbl gyfrinachol.

Gwelsom fod cofnodion yn dangos bod anghenion ymataliaeth cleifion unigol wedi cael eu hasesu a'u dogfennu'n briodol yn y bwndel Ymataliaeth Cymru Gyfan². Roeddent yn cytuno bod y staff yn eu helpu gyda'u hanghenion toiled mewn modd sensitif fel nad oeddent yn teimlo cywilydd.

Roedd ward 11 yn cynnwys toiledau dynodedig i ddynion a menywod ac roedd arwyddion priodol ar gyfer y rhain. Roedd cyfleusterau cawod neillryw ar ward 11. Nid oedd unrhyw doiledau na chawodydd dynodedig i ddynion a menywod ar ward 7 ac nid oedd arwyddion i helpu'r cleifion hynny â nam gwybyddol³.

Gwelsom fod cleifion yn cael cynnig cymorth wrth olchi ac eillio. Dywedwyd wrthym fod rhai cleifion wedi gofyn am bowlenni golchi wrth ymyl y gwely am nad oedd y cawodydd ar ward 7 yn bwerus iawn ac roedd y dŵr yn oer.

Roedd enwau cleifion a gwybodaeth yn ymwneud â'u gofal iechyd yn cael eu harddangos ar fwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion⁴ a oedd ar y wal ger gweithfan y nyrsys ar ward 7 fel y gall cleifion ac ymwelwyr eu gweld yn hawdd. Dywedodd yr uwch-brif nyrs wrthym fod y staff yn ymwybodol y dylent gau'r bwrdd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio er mwyn diogelu cyfrinachedd cleifion. Cafodd y bwrdd ei gau ar ein cais. Fodd bynnag, ar sawl achlysur yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y bwrdd wedi cael ei agor eto a heb ei gau ar ôl ei ddefnyddio. Mae gan bob claf yr hawl i sicrhau bod ei wybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n breifat ac yn gwbl gyfrinachol. Gwelsom nad oedd y bwrdd cipolwg ar statws cleifion ar ward 11 yn cael ei ddefnyddio digon, am nad oedd y wybodaeth yn cael ei diweddarau, ac roedd rhai rhannau o'r bwrdd wedi'u gadael yn wag.

² Asesiad ymataliaeth i gefnogi'r gwaith o wella profiad y cleifion ac urddas wrth ddarparu gofal.

³ Ystyr nam gwybyddol yw pan fydd unigolyn yn cael trafferth cofio pethau, dysgu pethau newydd, canolbwyntio neu wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd bob dydd.

⁴ Arddangosiad gweledol o wybodaeth, neilltuo staff a chyfarfodydd trosglwyddo ar y ward.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn cael ei hadolygu a'i diweddarau
- Bod y staff yn sicrhau bod sgysiau â chleifion yn cael eu cynnal yn dawel er mwyn diogelu cyfrinachedd cleifion.
- Bod toiledau a chyfleusterau cawod dynodedig i ddynion a menywod yn cael eu darparu er mwyn sicrhau y caiff urddas cleifion ei sicrhau
- Bod ymdrechion yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y dŵr yn cael ei gadw ar y tymheredd cywir ar ward 7
- Bod staff ar ward 7 yn cael eu hysbysu am eu dyletswydd i gadw gwybodaeth cleifion yn gwbl breifat a chyfrinachol drwy gau'r bwrdd cipolwg pan na fydd yn cael ei ddefnyddio, a chaiff ward 11 ei hannog i ddefnyddio'r bwrdd gan sicrhau bod adrannau yn cael eu cwblhau a bod y wybodaeth yn gyfredol.

Gwybodaeth i gleifion

Wrth fynedfa ward 7, gwelsom Ddatganiad Athroniaeth a oedd yn hysbysu'r darllenydd fod y staff yn barod i wrando, yn gymwynasgar ac yn parchu'r ymddiriedaeth sydd gan y cleifion ynddynt. Mae hwn yn arfer sy'n werth ei nodi.

Gwelsom hysbysfyrddau Gwybod Sut Rydym yn Perfformio wrth fynedfa ward 7 yn dangos gwybodaeth yn ymwneud â chydymffurfiaeth y staff â hylendid dwylo, gofal briwiau pwyso, achosion o gleifion yn cwmpo a chydymffurfiaeth â'r amserlen glanhau. Nid oedd y dyddiadau a nodwyd yn y wybodaeth yn gyson, ac roedd dyddiad Rhagfyr 2019 ar rywfaint o'r wybodaeth, a dyddiad Chwefror 2020 ar wybodaeth arall. Roedd hyn yn rhoi darlun dryslyd i'r darllenydd.

Roedd gan ward 11 gyflenwad o daflenni gwybodaeth yn ymwneud ag atal heintiau, y ffliw a strôc a cholli pwysau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Roedd gwybodaeth yn ymwneud â chydymffurfiaeth y staff â hylendid dwylo, niwed a wnaed i gleifion o ganlyniad i friwiau pwyso, achosion o gleifion yn cwmpo a chydymffurfiaeth â'r amserlen glanhau yn cael ei chyflwyno'n amserol ar hysbysfyrddau'r ward.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r cleifion ar ward 7 wrthym fod y staff yn gwrando arnynt ac yn cymryd eu hamser i esbonio pethau iddynt. Dywedodd y cleifion ar y ddwy ward eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu gofal a'u cynnydd adsefydlu cysylltiedig. Dywedodd un claf wrthym y byddai staff yn ymateb i glychau galw ac yn esbonio, pe na baent yn gallu delio â'r cais yn syth, y byddent yn dod nôl cyn gynted â phosibl.

Dywedwyd wrthym fod ward 11 yn darparu clinig perthnasau bob dydd Gwener, gan alluogi perthnasau i drefnu apwyntiadau i siarad â'r staff. Mae hwn yn arfer sy'n werth ei nodi, ac sy'n hybu cyfathrebu effeithiol.

Roedd hysbysiadau i gleifion, byrddau gwybodaeth ac arwyddion yn cael eu cyflwyno yn Saesneg yn bennaf ar y ddwy ward. Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion a gwybodaeth arall yn ymwneud â strôc, y ffliw, Gweithio i Wella, dementia a'r Groes Goch a oedd ar hysbysfyrddau ar gael yn ddwyieithog. Gwelsom rai arwyddion ar y ddwy ward yn darparu gwybodaeth i gleifion a theuluoedd ar ffurf llun yn hytrach na geiriau, gan ei gwneud yn haws i'r rhai ag anawsterau cyfathrebu neu nam gwybyddol ei deall.

Nid oedd Ward 7 yn cynnwys cyfleusterau dolen sain er mwyn i gleifion ac ymwelwyr â nam ar eu clyw gyfathrebu'n well â'i gilydd. Dywedodd prif nyrs y ward wrthym fod dolen sain wedi cael ei harchebu a gellid defnyddio cyfleusterau braille pe bai angen.

Roedd ward 11 yn cynnwys bwrdd Pwy yw Pwy a oedd yn arddangos enwau staff a'u swyddi. Roedd hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion ac ymwelwyr. Roedd ward 7 yn darparu hysbysiad a oedd yn dangos enw prif nyrs y ward. Nid oedd gwybodaeth am y staff ar ddyletswydd ar gael.

Mae ward 11 yn darparu sesiwn therapi lleferydd ac iaith ddynodedig bob dydd lau er mwyn helpu cleifion gyda'u lleferydd, iaith a chyfathrebu gwybyddol.

Gofal amserol

Gwnaethom edrych ar nodiadau achos cleifion ar ward 7 a gwelsom eu bod wedi'u strwythuro'n dda ac yn defnyddio rhanwyr pynciau. Roedd nodiadau

amlddisgyblaethol a ysgrifennir â llaw yn ddarllenadwy, yn gynhwysfawr ac mewn trefn gronolegol ar y ddwy ward. Gwnaethom nodi bod rhai dogfennau ar goll a chyfeirir at hyn yn fanylach o dan adran Cadw Cofnodion yr adroddiad hwn.

Gwnaethom edrych ar sampl o nodiadau achos cleifion a nodi bod dogfennau asesu wrth dderbyn wedi cael eu cwblhau a'u bod yn ystyried anghenion gofal a chlinigol y claf. Gwnaethom edrych ar nodiadau achos cleifion ac atgyfeiriadau o'r adran achosion brys a gwelsom nad oedd y ddogfennaeth yn cynnwys asesiad sepsis. Dywedwyd wrthym, er nad yw'r ddogfennaeth asesiad nyrsio yn cynnwys asesiad sepsis penodol, fod hyn yn cael ei gynnwys ym mhroses uwchgyfeirio/gweithredu y Sgôr Rhybudd Cynnar. Mae Sgôr Rhybudd Cynnar yn nodi cleifion â salwch aciwt gan gynnwys y rhai sydd â sepsis. Dywedodd y bwrdd iechyd wrthym fod Sgôr Rhybudd Cynnar o 3 neu fwy yn annog y staff i ystyried cynnal proses sgrinio sepsis.

Dyweddodd y cleifion wrthym y gallant ddefnyddio clychau galw a bod y staff yn ymateb i'w galwadau. Fodd bynnag, dywedodd un claf wrthym fod y staff yn ateb y cloch galw ond roedd hyn yn *“dibynnu ar ba mor brysur roeddent.”*

Gwnaethom amseru'r ymateb i'r clychau galw a gwelsom fod un achlysur ar ward 7 lle y cymerodd chwe munud i'r staff ymateb ac un achlysur ar ward 11 lle y cymerodd 4 munud i'r staff ymateb. Dylai'r staff sicrhau eu bod yn ymateb i glychau galw yn brydlon er mwyn sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu'n llawn.

Nododd y mwyafrif o'r staff ar y ddwy ward yn holiaduron AGIC fod digon o staff ar gael i ddarparu gofal amserol i gleifion. Nododd y staff:

- eu bod yn gallu cyflawni eu swydd *“drwy drefnu staff asiantaeth am gyfnodau estynedig .*

Er i un aelod o'r staff ar ward 11 nodi:

- nad yw'r rheolwyr *“yn poeni am lefelau staffio.”*

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod rheolwyr yn adolygu hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod Sgoriau Rhybudd Cynnar dros 3 yn annog y staff i ystyried cynnal proses sgrinio sepsis.

- Bod y staff yn ymateb i glychau galw yn brydlon er mwyn sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu'n llawn.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu cynlluniau gofal a thriniaeth.

Mae gan ward 11 ystafell ddydd fawr a gaiff ei defnyddio ar gyfer therapi galwedigaethol a ffisiotherapi. Roedd gwasanaeth ffisiotherapi dynodedig ar gael hefyd.

Mae gan Ward 11 glwb brechwast wedi'i gynllunio i annog cleifion i godi, golchi a gwisgo a mynd i'r ystafell ddydd fawr i fwyta brechwast a sgwrsio. Roedd tystiolaeth bod staff ar ward 7 yn annog cleifion i fod yn weithgar ac roeddent yn darparu cyfarpar er mwyn galluogi hyn.

Gwnaethom edrych ar nodiadau achos cleifion a gwelsom nad oedd tystiolaeth o waith cynllunio wedi'i ddogfennu ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty ar y naill ward na'r llall. Mae gwaith cynllunio effeithiol ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn rhan allweddol o'r gwaith gweithredol o reoli gwelyau. Mae'n helpu i leihau'r amser y mae cleifion mewnol yn aros yn yr ysbyty drwy eu paratoi'n ddigonol i'w rhyddhau drwy roi'r pecynnau gofal hanfodol ar waith, gan leihau'r angen i gleifion gael eu derbyn i'r ysbyty eto yn ddiangen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod cynlluniau rhyddhau cleifion o'r ysbyty a phecynnau gofal priodol yn cael eu trefnu ar gyfer cleifion cyn iddynt gael eu rhyddhau a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Hawliau pobl

Mae gan y bwrdd iechyd brotocol o'r enw 'mae gan un o gyflogeion GIG Cymru bryderon am les oedolion'. Mae'r protocol hwn yn darparu canllawiau cyfredol ar

bryderon ac mae'n darparu siart lif weithdrefnol er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd. Gwelsom fod y polisi 'Rheoli ac Ymchwilio i Ddigwyddiadau' wedi dyddio a dylid bod wedi'i adolygu ar 30.01.19.

Dywedodd cleifion ar y ddwy ward wrthym fod ffrindiau a theulu bob amser yn cael croeso ar y ward a bod amseroedd ymweld yn gyfleus ac yn hyblyg.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth o wybodaeth mewn perthynas â'r Cyngor Iechyd Cymuned ar y naill ward na'r llall. Y CIC yw llais annibynnol y bobl yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG ac mae'n annog ac yn cefnogi pobl i leisio eu barn yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG.

Roedd poster Gweithio i Wella⁵ yn cael ei arddangos wrth fynedfa ward 11. Fodd bynnag, nid oedd poster o'r fath yn cael ei arddangos ar ward 7, a gwelsom fod y taflenni gwybodaeth wedi'u storio o'r golwg yn nerbynfa'r ward. Codwyd hyn gyda phrif nyrs y ward a drefnodd i boster wedi'i lamneiddio gael ei osod ar yr hysbysfwrdd, ac i'r taflenni gwybodaeth gael eu rhoi mewn man amlwg yn y dderbynfa.

Roedd gan gleifion ar ward 7 fynediad i daflenni gwybodaeth am y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw wybodaeth gyswllt ar gael ar ward 11. Mae tîm y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion yn cynnwys tri aelod dynodedig o staff sy'n ymweld â'r wardiau bob wythnos. Roedd hon yn fenter newydd a roddwyd ar waith ym mis Ionawr 2020. Dywedwyd wrthym ei fod yn gofyn i gleifion gwblhau holiaduron Llywodraeth Cymru sef 'Eich Profiad Chi o GIG Cymru'. Dywedodd y tîm wrthym fod pryderon pob claf yn cael eu gweinyddu drwy system bryderon y bwrdd iechyd.

Nid oedd unrhyw wybodaeth am drefniadau eiriolaeth ar gael ar ward 11. Gellir cael gafael ar gymorth eiriolaeth gan wasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol ac elusennau. Os na fydd gan y cleifion deulu na ffrindiau, gall y tîm ddarparu llefarydd ar ran y cleifion a all ddarparu cymorth i ddeall y gofal, hawliau pobl a'u helpu i wneud penderfyniadau.

⁵ Gweithio i Wella yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu oddi wrthynt.

Mae ystafell i'r cleifion a pherthnasau ar gael ar ward 7. Nid oedd yr ystafell yn ymddangos fel un benodol i gleifion na pherthnasau. Roedd llungopiwr mawr yn yr ystafell a oedd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan y staff. Roedd gan ward 11 ystafell benodol i berthnasau. Roedd yr ystafell yn fawr ac yn olau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod y rheolwyr yn adolygu ac yn diweddarau'r polisi 'Rheoli ac Ymchwilio i Ddigwyddiadau'
- Bod y ddwy ward yn darparu gwybodaeth i'r cleifion a'r ymwelwyr am y CIC
- Bod gan gleifion ar ward 11 fynediad i daflenni gwybodaeth am Wasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion.
- Bod gwybodaeth am drefniadau eiriolaeth ar gael ar ward 11
- Bod y llungopiwr ar ward 7 yn cael ei symud i ardal addas, gan sicrhau bod cyfleusterau ystafell ddydd y cleifion yn cael eu diogelu er mwyn gwella profiad y claf.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom boster a oedd yn nodi bod ward 7 yn croesawu adborth gan gleifion a theulu a'r ffyrdd y gall cleifion roi adborth. Roedd cod 'QR'⁶ ar yr hysbysfwrdd ger y dderbynfa a oedd yn rhoi cyfle i gleifion, teulu a ffrindiau gwblhau holiadur ar-lein am y gofal a ddarperir ar y ward.

Nid oedd fawr ddim gwybodaeth wedi'i chyflwyno ar yr hysbysfyrddau ar ward 7 mewn perthynas â gwrando ar adborth a dysgu ohono. Dim ond un enghraifft a welsom lle y cafodd camau eu cymryd i leihau lefelau sŵn ar y ward. Nododd hyn fod y rowndiau meddyginiaeth bellach yn cael eu cwblhau'n gynt ac roedd cleifion

⁶Caiff cod 'QR' (Darllen yn Gyflym, Quick Read yn Saesneg) ei ddefnyddio i gael gwybodaeth ar ffôn clyfar

yn cael plygiau clust os oedd angen. Cawsom wybod bod posteri dwyieithog wedi'u lamineiddio yn dwyn y teitl Mae Eich Adborth yn Bwysig yn cael eu harddangos o amgylch yr ysbyty a byddai'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion yn gyfrifol am hyfforddi rheolwyr ar ddull cyson o roi adborth ar hysbysfyrdau.

Roedd ward 7 yn treialu'r Prawf Ffrindiau a Theulu. Crëwyd y Prawf Ffrindiau a Theulu i helpu darparwyr gwasanaethau a chomisiynwyr i ddeall a yw eu cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir tra eu bod yn yr ysbyty, neu ble y gellir gwella. Mae'n ffordd gyflym a dienw o rannu sylwadau ar ôl cael gofal neu driniaeth yn y GIG. Os yw cleifion yn cytuno i gymryd rhan, byddant yn cael neges destun neu alwad ffôn awtomatig o fewn 48 awr i gael eu rhyddhau. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt roi adborth ar y gwasanaethau a gawsant ac a fyddant yn argymhell y gwasanaethau i ffrindiau a theulu. Mae'r cyfleuster hwn yn cael ei dreialu mewn pedwar ysbyty Gwnaethom gydnabod bod hwn yn arfer sy'n werth ei nodi.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod prosesau cadarn ar waith ar gyfer asesu'r risg o gwmpo a chynlluniau gofal atal cwmpadau. Roedd cleifion yn cael asesiadau risg maeth a chynlluniau gofal y geg. Roedd asesiadau yn golygu y gellir nodi cymhlethdodau yn gynnar.

Gwelsom fod y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol a'u bod yn noeth o dan y penelin yn rheolaidd.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o faterion difrifol y mae angen eu gwella'n sylweddol er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys nodi trolïau dadebru nad oeddent yn addas at y diben ar ward 11, gwiriadau anghyson o gyffuriau a reolir ar ward 7, y gofyniad i osod drysau tân ar ward 7, y cleifion y nodwyd nad oeddent yn gwisgo bandiau adnabod cleifion ar eu harddyrnau a chofnodion gwasanaethu annigonol ar gyfer cyfarpar y cleifion ar wardiau 7 ac 11.

Gofal diogel

Ymdriniwyd â'r pryderon canlynol o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. O ganlyniad i hyn, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B. Ceir crynodeb o'r pryderon hyn isod:

- Gwnaethom nodi nad oedd y trolïau dadebru brys ar y ddwy ward yn addas at y diben. Roedd yr hyn a oedd wedi'i gynnwys ar y troli ar ward 11 yn anhrefnus ac yn anniben, ac roedd y cofnodion yn awgrymu nad oedd y cyfarpar na'r nwyddau traul yn cael eu gwirio'n gyson. Roedd blychau cyffuriau brys wedi cael eu rhoi ar ben y ddau droli lle y gallai'r cleifion a'r cyhoedd eu gweld, gan beryglu diogelwch y cleifion a'r cyhoedd.
- Gwnaethom edrych ar restr wirio ddyddiol ar gyfer cyffuriau a reoli ar ward 7 a gwelwyd nad oedd y cyffuriau a reolir wedi cael eu gwirio ar sawl

achlysur. Nid oedd y person a oedd yn gyfrifol am y ward na'r dirprwy dynodedig yn cadw'r allwedd i'r cabinet cyffuriau a reolir ar ward 7, fel sy'n ofynnol yn ôl polisi meddyginiaethau y bwrdd iechyd. Nid oedd y clo ar y cabinet cyffuriau a reolir wedi cael ei actifadu gan alluogi mynediad anghyfyngedig. Gwnaethom nodi nad oedd y staff ar ward 11 wedi dogfennu'r gwiriadau o dymereddau'r oergell dros gyfnod o chwe diwrnod ym mis Ionawr 2020.

- Codwyd gofyniad i osod drysau tân ar ward 7 gan y Gwasanaeth Tân a oedd wedi cyflwyno hysbysiad gorfodi yn nodi'r gofynion o ran rhagofalon tân ar gyfer ysbyty Llwynhelyg er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Nododd yr hysbysiad gorfodi y dylid cymryd camau erbyn mis Tachwedd 2019. Cawsom wybod bod tîm rheoli'r ysbyty wedi cyflwyno cynnig i gwblhau'r holl waith hanfodol a nodwyd yn yr hysbysiad, ac roedd yn aros am gadarnhad gan y Gwasanaeth Tân bod y cynnig yn dderbyniol.
- Gwelsom nad oedd dau glaf ar ward 7 a dau glaf ar ward 11 yn gwisgo bandiau adnabod cleifion ar eu harddyrnau. Gall diffyg bandiau adnabod cleifion ar arddyrnau arwain at gam-adnabod a pheryglu gofal a diogelwch cleifion.
- Nid oedd cofnodion gwasanaethu ar gael ar nifer o welyau ar ward 11, ac roedd cofnodion eraill yn nodi bod y gwiriadau gwasanaethu wedi dyddio. Os na chaiff gwelyau eu gwasanaethu, neu os na chânt eu gwasanaethu'n rheolaidd, gall hynny beryglu'r defnydd effeithiol o'r gwelyau a gall hynny, yn ei dro, beryglu diogelwch y cleifion. Gwelsom gofnod gwasanaethu ar gyfer peiriant Electrocardiogram ar ward 11 a oedd yn nodi bod angen ei wasanaethu ar 4/10/19. Os na chaiff cyfarpar clinigol ei wasanaethu, neu os na chaiff ei wasanaethu'n rheolaidd, gall hynny beryglu'r defnydd effeithiol o'r cyfarpar a gall hynny, yn ei dro, beryglu diogelwch y cleifion.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod cilfannau cleifion ac ystafelloedd ochr ar y ddwy ward yn lân, ac ymddengys bod y gosodiadau a'r ffitiadau mewn cyflwr cymharol da. Fodd bynnag, gwelsom fod ardaloedd o amgylch gweithfan y nyrsys ar ward 7 yn llychlyd. Gwelsom enghreifftiau o fframiau drysau wedi'u difrodi a phaent â marciau treulio arno ar y ddwy ward.

Nid oedd digon o gyfleusterau storio ar y naill ward na'r llall. Roedd ystafell ddydd y cleifion ar ward 7 yn cael ei defnyddio fel ystafell llungopiö, ac roedd yr ystafell ddydd ar ward 11 yn cael ei defnyddio i storio cadeiriau olwyn a theclynnau codi. Gwelsom ddillad gwely glân mewn pentwr ar droli mawr mewn cilfach ar ward 7,

yn hytrach na mewn cwpwrdd. Roedd y prinder lle storio yn creu risg bosibl y gallai cleifion, ymwelwyr a'r staff faglu ac yn dangos bod cyfleusterau'r ystafelloedd i gleifion yn cael eu defnyddio'n amhriodol.

Roedd y drws i'r ystafell storio ar ward 7 ar agor ac roedd sawl un o ddrysau'r cypyrddau yn yr ystafell storio wedi cael eu gadael ar agor. Roedd hylif cawod a siampŵ yn weladwy. Er mwyn cynnal amgylchedd diogel i gleifion, dylai pob hylif gael ei storio'n ddiogel mewn cwpwrdd wedi'i gau. Gwnaethom nodi bod arwyneb y cypyrddau yn llychlyd a bod eu cynnwys yn anhrefnus ac yn anniben. Roedd drws y cwpwrdd glanhau a oedd yn agos at fynedfa ward 11 ar agor, roedd cemegion yn weladwy ac roedd eitemau eraill yn anniben. Yn dilyn ein cyngor, cafodd y cemegion eu rhoi i gadw a chafodd drws y cwpwrdd glanhau ei gau.

Roedd y drws wrth fynedfa ward 7 yn cael ei gadw ar agor, gan orchuddio dau ddiffoddydd tân ewyn a pheryglu diogelwch cleifion, pe bai tân. Gwelsom nad oedd y diffoddydd carbon monocsid wedi'i osod yn gywir. Roedd hyn yn achosi perygl o faglu pan oedd y drws ar agor.

Gwelsom sawl hysbysiad am ddiffibrilwyr ar y waliau ar ward 7 yn nodi ble y gellid cael gafael ar y cyfarpar. Gwnaethom nodi bod y geiriad wedi'i gyflwyno mewn ffont bach ac nad oedd yn hawdd i'w ddarllen.

Rhoddwyd gwybod i ni bod dŵr yn gollwng yn swyddfa'r brif nyrs. Cawsom wybod bod y dŵr wedi bod yn gollwng ers cryn dipyn o amser ac roedd bwced wedi cael ei roi ar y llawr er mwyn dal y dŵr a oedd yn gollwng. Ar ôl ymchwilio ymhellach i hyn, gwelwyd bod teils ar goll o'r nenfwd. Mae dŵr yn gollwng yn peri risg o haint bosibl ac nid oedd y bwced ar y llawr yn cael ei wagio'n rheolaidd a gallai pobl faglu drosto. Dywedwyd wrthym fod dŵr yn gollwng yn broblem gyffredinol ym mhob rhan o'r ysbyty.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod pob ardal ar y wardiau yn cael ei glanhau i safon uchel
- Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i osod cyfleusterau storio priodol ar y ddwy ward er mwyn sicrhau amgylchedd sy'n rhydd rhag peryglon baglu
- Bod yr holl hylifau a chemegion yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo

- Bod diffoddwyr tân yn cael eu gosod yn gywir ac nad ydynt o'r golwg y tu ôl i ddrws agored
- Yr eir i'r afael â'r dŵr yn gollwng yn swyddfa'r brif nyrs ar ward 7 a bod y bwced yn cael ei symud.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Roedd gan ward 11 fwrdd gwybodaeth dynodedig am ofal briwiau pwyso a oedd yn nodi na fu unrhyw achosion o niwed briwiau pwyso i gleifion ers 5 mlynedd.

Roedd y ddwy ward yn defnyddio matresi aer i ofalu am gleifion â briwiau pwyso a niwed i feinweoedd.

Roedd y mwyafrif o'r cofnodion ar y ddwy ward yn cadarnhau bod y cleifion wedi cael asesiadau risg croen a briwiau pwyso wrth gael eu derbyn i'r ysbyty. Roedd cynlluniau gofal a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd ar waith ar y ddwy ward. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y cynlluniau gofal ar ward 11 yn rhai ar gyfer cleifion unigol ac roeddent yn cynnwys cyfres o flychau ticio, heb unrhyw esboniad pellach o unrhyw faterion parhaol yn ymwneud â briwiau pwyso neu niwed i feinweoedd. Roedd nodiadau achos cleifion ar y ddwy ward yn cael eu symud yn rheolaidd. Fodd bynnag, roedd un set o nodiadau achos cleifion ar ward 7 yn nodi achosion anghyson o symud claf nad oedd yn gallu symud. Roedd cofnodion yn dangos bod y claf yn cael ei symud bob wyth awr yn ystod y nos. Argymhellir y dylid symud oedolion sy'n wynebu risg o leiaf bob chwe awr a bob pedair awr ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg uchel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), os nad yw unigolyn yn gallu symud ei hun, dylai gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ei helpu i symud er mwyn ei atal rhag cael briwiau pwyso. Am resymau diogelwch, argymhellir y dylid symud oedolion sy'n wynebu risg bob chwe awr o leiaf a bob pedair awr ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg uchel.

Atal cwypïadau

Gwelsom gofnodion ar ward 11 a oedd yn cadarnhau bod cleifion wedi cael asesiad risg o gwmpo wrth gael eu derbyn i'r ysbyty a bod yr asesiad hwnnw yn cael ei adolygu'n barhaus. Roedd cynllun gofal atal cwympiadau ar waith ar gyfer y cleifion a oedd yn wynebu risg o gwmpo. Mae'r asesiad risg a'r ddogfen cynllun gofal yn cynnwys hanes y claf o gwmpo, ffactorau sy'n peri risg a threfniadau i'w atal rhag cwmpo yn y dyfodol.

Nid oes gan yr ysbyty wasanaeth cwympiadau arbenigol. Cawsom wybod bod hwn yn wasanaeth sydd wedi'i leoli yn y gymuned.

Atal a rheoli heintiau

Roedd y cleifion ar y ddwy ward yn canmol pa mor lân a thaclus oedd y ddwy ward. Dywedodd un claf ar ward 7 fod y staff domestig yn glanhau'r gilfan ddwywaith y dydd ac yn sicrhau eu bod yn glanhau rheiliau'r llenni a silffoedd y ffenestri.

Gwelsom fod rhai ardaloedd ar ward 7 yn llychlyd, gan gynnwys rhannau o weithfan y nyrsys. Gwelsom fod llawer o lwch yn yr ystafell storio, ac roedd ôl llwch ar rai standiau drip, gwelyau a chomodau, er bod tag arnynt yn nodi eu bod yn lân. Gwelsom fod silff y ffenestr yng nghilfan 1 yn llychlyd ac roedd eiddo'r claf wedi'i osod ar y silff yn uniongyrchol. Am fod hyn yn peri risg o ran rheoli heintiau, gwnaethom ofyn i'r staff dynnu eiddo'r claf o'r silff a sicrhau ei fod yn cael ei lanhau. Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith.

Gwelsom nifer o ardaloedd ar ward 7 lle roedd y safonau glanhau yn wael. Roedd y llawr yn yr ystafell eitemau budr yn frwnt ac roedd darnau o bapur drosto. Roedd cynhwysydd cardfwrdd mewn comed yn wlyb am nad oedd y ffrâm wedi cael ei sychu'n iawn ar ôl ei lanhau. Roedd yn o'r tapiâu yn y basn yn gollwng a chawsom wybod bod hen uned doiled yn cael ei defnyddio i gael gwared ar ddŵr budr o fwcledi mop. Nid oedd gan yr uned sedd na chaead ac nid oedd yn ymddangos fel petai wedi cael ei glanhau. Roedd y pibellau dŵr yn un o'r toiledau a rennir yn frwnt ac yn llychlyd. Rhoddwyd gwybod i'r swyddogion cadw tŷ ar unwaith a daethant i'r ward i asesu lefel y glanhau yr oedd ei hangen.

Cawsom wybod bod gan ddau glaf ar ward 7 heintiau yn gysylltiedig â gofal iechyd. Roedd y ddau glaf wedi cael eu hynysu mewn ystafelloedd ochr, ac roedd hysbysiadau heintio yn amlwg y tu allan i'r ystafelloedd. Fodd bynnag, roedd y ddau ddrws i'r ystafelloedd ar agor lled y pen a oedd yn peri risg o groes-heintio. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod yr asesiad risg wedi cael ei gwblhau nac i nodi pam fod y drws yn cael ei gadw ar agor.

Gwelsom fod y staff ar y ddwy ward yn defnyddio cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau untro. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael ar y

wardiau, yn ogystal â hylif diheintio dwylo. Gwelsom bosteri hylendid dwylo, golchi dwylo a threfniadau noeth o dan y penelin ar y ward. Mae hylendid dwylo effeithiol yn hanfodol er mwyn helpu i atal croes-heintio.

Mae'r bwrdd iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r staff sicrhau eu bod yn noeth o dan y penelin tra eu bod ar ddyletswydd. Ni chaniateir i'r staff wisgo dillad na gemwaith o dan eu penelin (ar wahân i fodrwy briodas blaen), yn enwedig pan fyddant yn dod i gysylltiad â chleifion, er mwyn cynnal trefniadau atal a rheoli heintiau da. Gwelsom fod y staff yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau noeth o dan y penelin ar y ddwy ward.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant digonol ym maes atal heintiau, ac roedd cofnodion hyfforddiant yn adlewyrchu hyn. Dangosodd y staff eu bod yn deall sut i ddelio ag anafiadau a achosir gan nodwyddau. Cadarnhaodd y staff eu bod yn deall y broses ar gyfer trefnu i'r ward gael ei glanhau'n drylwyr a'i dihalogi yn dilyn haint.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod pob ardal ar y ward yn cael ei glanhau i safon uchel
- Bod asesiad risg yn cael ei gynnal ar gyfer cleifion mewn ystafelloedd ochr sydd â haint er mwyn cadarnhau a yw'n briodol i ddrysau'r ystafelloedd gael eu cadw ar agor.

Maeth a hydradu

Gwelsom fod y cofnodion yn dangos bod y ddwy ward yn defnyddio'r Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan⁷ yn y ffordd briodol ac roedd asesiadau risg maeth ar waith. Gwelsom hefyd fod cymeriant bwyd a hylifau cleifion yn cael ei fonitro a'i adolygu.

⁷ Mae Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan yn helpu nyrsys gyda'r broses o wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â sgrinio maeth pob claf wrth iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty a'r gofal maeth y bydd ei angen arno tra bydd yn yr ysbyty.

Gwelsom gofnodion ar ward a oedd yn nodi bod gan y cleifion gynllun gofal y geg ar waith.

Gwelsom fod y cleifion ar y ddwy ward yn cael bwydlen bob bore a oedd yn eu galluogi i ddewis y prydau yr oedd yn well ganddynt.

Gwelsom fod y cynorthwyr gofal iechyd yn clirio'r byrddau cyn i fwyd gael ei weini ar y ddwy ward ac yn rhoi weipiau dwylo clinigol i'r cleifion sychu eu dwylo cyn bwyta. Gwelsom fod y cleifion yn cael jygiau o ddŵr a dŵr ffres ac roedd amrywiaeth o ddiodydd yn cael eu cynnig gyda phrydau gan gynnwys te, coffi, dŵr a sudd.

Gwelsom fod y cynorthwyr gofal iechyd yn dosbarthu bwyd a diod i'r cleifion. Ar ward 7, gwelsom fod dau glaf yn cael trafferth bwydo eu hunain. Ni chawsant gymorth. Tynnwyd sylw y staff ar ddyletswydd at hyn. Gwelsom fod rhai cleifion ar ward 11 yn cael hambyrddau coch a oedd yn nodi bod angen cymorth arnynt gyda bwyd a diod.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gallu bwyta eu bwyd wrth eu pwysau, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno y byddai'r staff yn eu helpu i fwyta ac yfed petai angen. Roedd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn cytuno bod dŵr o fewn cyrraedd bob amser.

Gwnaethom nodi y gall y broses o ddsbarthu prydau ar y ddwy ward gymryd dros hanner awr. Nododd y cleifion fod y bwyd weithiau'n oer ac yn wlyb o ganlyniad i'r gyddwysiad o gaeadau'r cynwysyddion. Dywedodd cleifion hirdymor wrthym fod y dewis o ran bwyd wedi mynd yn ailadroddus.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod prydau yn cael eu darparu i gleifion mewn modd amserol er mwyn atal y bwyd rhag mynd yn oer ac yn wlyb o ganlyniad i gyddwysiad.

Rheoli meddyginiaethau

Mae gan y bwrdd iechyd bolisi meddyginiaethau a pholisi Rheoli camgymeriadau/achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd ym maes Meddyginiaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd y ddau bolisi yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr ac roeddent yn gyfredol.

Mae gan y ddwy ward fferyllydd ward dynodedig sy'n ymweld â'r ward bum gwaith yr wythnos. Mae gan y ward 11 hefyd dechnegydd fferyllydd ward dynodedig. Fel rhan o'r tîm ward ehangach, maent yn sicrhau y darperir y feddyginiaeth gywir i gleifion a'u bod yn ei chael.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar bob ward ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Mae gan y ddwy ward barth diogelwch meddyginiaeth sy'n sicrhau y caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel mewn ystafell dan glo. Roedd loceri cleifion hefyd yn cael eu defnyddio i storio meddyginiaeth ar ward 11. Roedd y rhain yn cael eu cloi ac roedd nyrs gofrestrdig yn cadw'r allwedd.

Gwelsom nad oedd hylifau mewnwythiennol dan glo yn ddigonol ar y naill ward na'r llall. Dylid sicrhau bod hylifau mewnwythiennol dan glo fel eu bod yn cael eu storio'n ddiogel a bod mynediad anawdurdodedig i gyfarpar gofal iechyd yn cael ei atal.

Cafodd cyffuriau a reolir eu storio mewn cypyrddau dan glo ar y ddwy ward. Cawsom wybod nad oedd y cabinet storio allwedd i a oedd yn cynnwys yr allwedd ar gyfer y cwpwrdd cyffuriau a reolir ar gyfer ward 7 wedi'i gloi ar adeg yr arolygiad am fod y ward yn aros i'r clo gael ei actifadu. Aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol o'r stoc o gyffuriau a reolir yn cael eu cofnodi'n ddigonol yn y cofnodlyfr priodol ar gyfer ward 11. Fodd bynnag, ni allem fod yn sicr bod gwiriadau stoc dyddiol wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd ar ward 7, am nad oedd y cofnodlyfr wedi cael ei gwblhau ar 24 Rhagfyr 2019 nac ar 01 a 02 Ionawr 2020. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn fel rhan o'n proses sicrwydd uniongyrchol, a cheir manylion am hyn yn Atodiad B.

Gwelsom dystiolaeth wedi'i dogfennu bod tymereddau'r oergell meddyginiaeth wedi cael eu gwirio'n rheolaidd ar ward 7. Fodd bynnag, ymddengys bod chwe diwrnod ym mis Ionawr 2020 pan nad oedd tymereddau'r oergell wedi cael eu gwirio ar ward 11. Gwelsom fod diodydd protein yn cael eu storio mewn oergell ar ward 11. Roedd yr oergell hon yn hen ac ymddengys nad oedd yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn fel rhan o'n proses sicrwydd uniongyrchol, a cheir manylion am hyn yn Atodiad B.

Roedd y staff yn gwisgo tabardiau coch ar y ddwy ward i nodi eu bod yn cynnal rownd feddyginiaeth ac na ddylid tarfu arnynt. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei rhoi ar y ddwy ward mewn modd hamddenol a threfnus. Roedd y cleifion yn cael eu rhoi yn yr ystum cywir ac roeddent yn cael cymorth i gymryd meddyginiaeth.

Gwnaethom nodi pum claf ar y ddwy ward nad oeddent yn gwisgo bandiau adnabod. Mae bandiau adnabod yn galluogi'r staff i adnabod cleifion yn hawdd a sicrhau eu bod yn cael y feddyginiaeth gywir a ragnodir iddynt. Roedd

meddyginiaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion hyn er nad oeddent yn gwisgo'r bandiau adnabod cleifion, gan beri risg o roi'r feddyginiaeth anghywir. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn fel rhan o'n proses sicrwydd uniongyrchol, a cheir manylion am hyn yn Atodiad B.

Roedd y siartiau rhoi meddyginiaeth wedi cael eu cwblhau'n gywir ar y ddwy ward.

Gwelsom fod ocsigen yn cael ei ragnodi'n briodol i gleifion ar y ddwy ward. Cafodd hyn ei gofnodi ar y siartiau rhoi meddyginiaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod hylifau mewnwythiennol yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd neu ystafell dan glo.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ac y gallent fynd at y staff os oeddent yn poeni am unrhyw beth.

Gwelsom fod gan y bwrdd iechyd bolisi Cymorth Ychwanegol i Gleifion cyfredol ar waith, gan ddarparu fframwaith ar gyfer lefelau uwch o drefniadau goruchwyllo a chymorth i gleifion mewnol a pholisi Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid⁸ cyfredol. Fodd bynnag, bydd angen diweddarau'r polisi hwn ym mis Hydref 2020 er mwyn adlewyrchu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid, yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019⁹.

⁸ Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yw'r weithdrefn a ragnodir yn ôl y gyfraith pan fydd angen amddifadu preswlydd neu glaf, nad oes ganddo'r gallu i gydsynio i'w ofal a'i driniaeth, o'i ryddid er mwyn ei gadw yn ddiogel rhag niwed.

⁹ Ar 16 Mai 2019, cyflwynodd y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) y Trefniadau Diogelu Rhyddid (LPS), sef model newydd i ddiogelu ac amddiffyn unigolion nad oes ganddynt y galluedd ac y cânt eu hamddifadu efallai o'u rhyddid wrth gael gofal.

Gwelsom dystiolaeth bod y bwrdd iechyd yn rhan o Fwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru. Serch hyn, roedd y ddogfennaeth a ddarparwyd wedi'i dyddio mis Gorffennaf 2019.

Mae hyfforddiant gorfodol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion.

Gwnaethom edrych ar nodiadau achos cleifion ar ward 11 a gwelsom un claf y dylid bod wedi'i atgyfeirio at y tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Gwnaethom gynghori'r staff i gwblhau atgyfeiriad ac aeth prif nyrs y ward i'r afael â hyn. Gwnaeth trafodaethau â'r staff ar ward 11 dynnu sylw at y ffaith bod angen hyfforddiant pellach ar asesiadau galluedd meddyliol¹⁰ ac atgyfeiriadau amddifadu o ryddid. Gwelsom un claf ar ward 7 a gafodd ei asesu o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Roedd y ddogfennaeth gywir wedi cael ei chwblhau a'i ffeilio yn nodiadau achos y claf.

Mae ward 7 yn defnyddio'r cynllun pili pala¹¹ i nodi cleifion â dementia. Cafodd y cynllun hwn ei ddefnyddio mewn ffordd gynnil, gan amddiffyn urddas y claf. Cawsom wybod bod ward 11 yn defnyddio'r un cynllun ac mae ganddi hyrwyddwr dementia.

Gwnaethom edrych ar nifer o nodiadau achos cleifion ar ward 11, a gwelsom ar ddau achlysur nad oedd yr asesiad o alluedd meddyliol claf a oedd wedi'i ddogfennu wedi cael ei gwblhau. Nododd gweithwyr iechyd proffesiynol fod angen cynnal asesiad pellach o alluedd meddyliol y claf, ond ni wnaethpwyd unrhyw atgyfeiriad at y tîm iechyd meddwl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

¹⁰ Nod yr asesiad hwn yw penderfynu a oes gan unigolyn y gallu i wneud penderfyniadau.

¹¹ Mae'r cynllun pili pala yn galluogi cleifion sydd â dementia a'u gofalwyr i ddewis cael symbol pili pala uwchben gwely'r claf. Mae'r symbol hon yn hysbysu'r staff bod angen darparu gofal priodol yn seiliedig ar angen.

- Bod y polisi Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid, yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019
- Bod hyfforddiant ar asesiadau galluedd meddyliol ac atgyfeiriadau amddifadu o ryddid yn cael ei roi i staff ar ward 11
- Bod asesiad o alluedd meddyliol claf yn cael ei gwblhau a'i ddogfennu'n llawn a bod camau amserol yn cael eu cymryd i sicrhau bod budd pennaf y claf yn cael ei ddiogelu.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Cawsom wybod y gellir gofyn am gyfarpar drwy lyfrgell cyfarpar ganolog. Mae'r llyfrgell ganolog yn gyfrifol am y trefniadau monitro a gwasanaethu ar gyfer yr holl gyfarpar yn yr ysbyty. Mae cyfleuster hefyd i roi gwybod am ddiffygion cyfarpar.

Gwnaethom wirio pum set o gyfarpar ar ward 7. Roedd yr holl gyfarpar wedi cael ei labelu i gadarnhau bod y gwiriadau gwasanaethu yn gyfredol. Gwnaethom edrych ar gofnodion gwasanaethu gwelyau'r cleifion ar y ddwy ward. Gwelsom nad oedd nifer o'r gwelyau wedi cael eu labelu i gadarnhau eu bod wedi cael eu gwasanaethu ac roedd angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar beiriant ECG. Dywedwyd wrthym fod yr ysbyty wedi penodi contractiwr i wasanaethu'r gwelyau ac roedd cynllun gwasanaethu yn cael ei ddatblygu. Aed i'r afael â'r mater hwn fel rhan o'n proses sicrwydd uniongyrchol, a cheir manylion am hyn yn Atodiad B.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd asesiadau rheoli poen ar waith ar y ddwy ward, gyda thystiolaeth eu bod yn cael eu monitro a'u hadolygu. Gwelsom fod ward 7 yn defnyddio adnodd asesu a monitro cydnabyddedig i sgorio poen claf drwy nodi lefel yr anesmwythdra neu boen yr oedd y claf yn ei hwynebu.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Cawsom wybod bod ward 7 yn treialu Prawf Ffrindiau a Theulu. Crëwyd Prawf Ffrindiau a Theulu y GIG i helpu darparwyr gwasanaeth a chomisiynwyr i ddeall a yw eu cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir, neu ble y gellir gwneud gwelliannau. Mae'n ffordd gyflym a dienw o rannu sylwadau ar ôl cael gofal neu driniaeth yn y GIG. Mae gan gleifion yr opsiwn o gytuno i dderbyn neges destun gan y bwrdd iechyd ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn gofyn y cwestiwn canlynol

iddynt: “Pa mor debygol ydych chi o argymell ein gwasanaeth i ffrindiau a theulu petai angen gofal neu driniaeth debyg arnynt?” Gall cleifion ateb y cwestiwn a rhoi sylwadau ychwanegol i ategu eu hateb. Mae'r bwrdd iechyd yn dadansoddi'r ymatebion a chaiff ei annog i ymateb yn nodi'r ffyrdd y mae'n gobeithio mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Mae hwn yn arfer sy'n werth ei nodi.

Nid yw'r system hon yn disodli proses Pryderon y GIG.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Cawsom wybod bod 85.7% o'r staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth. Fodd bynnag, pan wnaethom gyrraedd ward 11, gwelsom fod gwybodaeth am drosglwyddo cleifion yn cael ei harddangos ar sgrin cyfrifiadur. Roedd aelod o'r staff wedi gadael y cyfrifiadur heb neb i ofalu amdano ac nid oedd wedi cloi'r sgrin, gan dorri cyfrinachedd y cleifion o bosibl.

Gwelsom dystiolaeth nad oedd nodiadau achos cleifion yn cael eu storio'n ddiogel ar ward 11. Roedd nodiadau achos cleifion yn cael eu ffeilio mewn troli y gellir ei gloi. Fodd bynnag, roedd y troliâu yn cael eu gadael heb neb i ofalu amdanynt a heb eu cloi, gyda'r allweddi wedi'u gadael yn y clo. Roedd hyn yn cynyddu'r risg o dorri cyfrinachedd y cleifion a mynediad anawdurdodedig at wybodaeth y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod sgriniau cyfrifiaduron yn cael eu cloi pan na fydd neb i ofalu amdanynt er mwyn atal achos posibl o dorri cyfrinachedd
- Bod nodiadau achos cleifion yn cael eu cadw dan glo yn briodol pan na fyddant yn cael eu defnyddio er mwyn atal mynediad anawdurdodedig iddynt.

Cadw cofnodion

Gwelsom sampl o nodiadau achos cleifion. Roedd nodiadau nyrsio ysgrifenedig yn ddarllenadwy ac roedd y mwyafrif ohonynt yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n rheolaidd ond ni nodwyd amseroedd. Mae angen nodi amseroedd gofal a chanlyniadau cleifion er mwyn dangos y caiff gofal ei ddarparu mewn modd amserol. Nid oedd rhai nodiadau meddygol ysgrifenedig yn ddarllenadwy ar ward 7. Fodd bynnag, roedd rhifau blîp meddygon yn cael eu nodi wrth ymyl llofnodion.

Gwelsom fod staff ar ward 7 yn defnyddio'r bwndel Ymataliaeth Cymru Gyfan yn y ffordd gywir a'u bod yn cwblhau asesiadau ymataliaeth ar gyfer cleifion mewnol.

Gwelsom gynlluniau rhyddhau cleifion o'r ysbyty ar y ddwy ward. Gwnaethom edrych ar sampl o nodiadau achos cleifion a gwelsom nad oedd y staff ar y ddwy ward yn cwblhau cynlluniau rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn rheolaidd nac yn cynllunio ar gyfer gofynion gofal cyn i'r cleifion gael eu rhyddhau. Mae cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn hybu gofal iechyd effeithiol a llif effeithlon o ran derbyn cleifion mewnol i'r ysbyty a'u rhyddhau. Mynegodd y Pennaeth Nyrsio Dros Dro ei siom bod trefniadau gweinyddu cynlluniau rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn wael am fod y staff wedi cael hyfforddiant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Dylid llofnodi, dyddio a nodi amseroedd ar nodiadau nyrsio er mwyn darparu tystiolaeth o ofal amserol.
- Bod cynlluniau rhyddhau cleifion o'r ysbyty a gofynion gofal yn cael eu hystyried a'u dogfennu'n llawn er mwyn sicrhau cynlluniau rhyddhau cleifion o'r ysbyty effeithlon ac effeithiol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd rheolwyr ward ac uwch-aelodau o'r staff eraill yn weladwy yn ystod ein harolygiad. Roedd staff ar bob lefel yn ymdrechu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar y ddwy ward.

Nododd staff y ward eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr y ward a oedd yn cymryd diddordeb yn eu hiechyd a'u llesiant.

Roedd y nifer sylweddol o swyddi gwag ar y ddwy ward yn cyfrannu at y defnydd helaeth a wneir o staff asiantaeth.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom wahodd staff a oedd yn gweithio ar y wardiau i roi sylwadau ar bynciau a oedd yn ymwneud â'u gwaith. Gwnaed hyn yn bennaf drwy holiadur, ond gwnaethom hefyd siarad â nifer bach o staff ar ddiwrnodau ein harolygiad. Cawsom gyfanswm o 14 o holiaduron wedi'u cwblhau gan amrywiaeth o aelodau o'r staff ar y ddwy ward.

Cawsom strwythur rheoli a oedd yn disgrifio'r llinellau atebolrwydd a thîm rheoli ehangach y bwrdd iechyd.

Roedd rheolwr ward llawn amser a dirprwy reolwr ward wedi'u penodi ar ward 7. Cafodd rheolwr ward ei benodi'n ddiweddar ar ward 11. Roedd rôl y dirprwy wedi cael ei hysbysebu ar ward 11, ond nid oedd yr hysbyseb wedi denu unrhyw ymgeiswyr. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym:

“Mae'r uwch-brif nyrs ar ward 11 wedi bod yn gweithio ar ei phen ei hun heb fawr ddim cymorth gan y staff uwch. Mae uwch-aelodau o staff Band 5 yn ceisio helpu cymaint ag y gallent.”

Roedd gan y ddwy ward nifer sylweddol o swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig ac roedd staff banc ac asiantaeth yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.

Cawsom wybod bod dau aelod o'r staff nyrsio cofrestredig ar ward 11 yn absennol oherwydd salwch. Dywedodd rheolwr y ward ar ward 11 wrthym ei bod wedi treulio llawer o amser ar y ward yn cefnogi ac yn hyfforddi staff asiantaeth. Cawsom wybod bod yr Uwch Reolwr Nyrsio ar gyfer Meddygaeth yn cefnogi'r ddwy ward.

Gwelsom fod rheolwyr y ward yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn cyfathrebu â chleifion a staff ar bob lefel.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis ar ward 7. Roedd llawer o bobl yn mynychu'r cyfarfodydd ar y cyfan, ac roedd trafodaethau yn cael eu dogfennu mewn cofnodion. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod pob aelod o staff ar y ward wedi darllen y cofnodion. Nid oedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar ward 11. Fodd bynnag, dywedodd rheolwr y ward wrthym nad oedd gwybodaeth a oedd yn ymwneud â chanlyniad digwyddiadau bob amser yn cael eu bwydo yn ôl i'r staff.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr yn y sefydliad, a dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff.

Dywedodd hanner y staff a gwblhaodd holiadur fod uwch-reolwyr yn cynnwys staff mewn penderfyniadau pwysig, er i rai ymatebwyr nodi nad ydynt byth yn gwneud hynny. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff fod y rheolwyr yn gweithredu ar adborth gan y staff a dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y rheolwyr yn ymrwymedig i ofal cleifion.

Gwnaethom siarad â staff ar y ddwy ward a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo bod rheolwr y ward yn eu cefnogi ac yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant ac yn eu hannog i weithio fel tîm.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur fod digon o aelodau o staff yn y sefydliad i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, er i un ymatebydd nodi nad oedd byth digon o staff yn y sefydliad. O ganlyniad i swyddi gwag staff, roedd y ddwy ward yn defnyddio staff asiantaeth rheolaidd er mwyn sicrhau parhad gofal.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff bod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y sefydliad yn trin adroddiadau o gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau, yn gyfrinachol. Fodd bynnag, nododd lleiafrif o'r ymatebwyr y byddai'r sefydliad yn beio neu'n cosbi pobl a oedd yn gysylltiedig â chamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwdd neu ddigwyddiadau.

Cytunodd y staff a gwblhaodd holiadur, pe baent yn poeni am ymarferion clinigol anniogel, y byddent yn teimlo'n hyderus i godi'r pryder hwnnw ac y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo'n hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon ar ôl iddynt roi gwybod amdanynt, er i rai anghytuno â hyn.

Dywedodd bron pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur fod y sefydliad yn gweithredu'n deg mewn perthynas â datblygiad gyrfa, ac nad oedd unrhyw wahaniaethu ar sail cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabled neu oedran. Nododd dau ymatebydd fod claf wedi gwahaniaethu yn eu herbyn, a nododd tri aelod o'r staff fod y rheolwyr wedi gwahaniaethu yn eu herbyn.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod wedi cael gwybod am y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r ymatebwyr yn ymwybodol o hyn.

Cawsom dystiolaeth a oedd yn ategu'r lefel gydymffurfiaeth â'r safonau nyrso ar y ddwy ward. Mae'r bwrdd iechyd yn gweithredu system lywodraethu sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau a safonau iechyd a gofal yn llwyddiannus. Mae'r system Monitro Iechyd a Gofal yn darparu asesiad parhaol o weithgarwch sy'n cynnwys cydymffurfiaeth ganrannol â threfniadau hylendid dwylo ac amserlenni glanhau. Ym mis Ionawr 2020, nododd ward 7 gydymffurfiaeth o 91.3% â threfniadau hylendid dwylo y staff a nododd ward 11 gydymffurfiaeth o 90.91% yn y maes hwn.

Ym mis Ionawr 2020, nododd ward 7 gydymffurfiaeth o 93.3% â'r amserlen glanhau a nododd ward 11 gydymffurfiaeth o 90% yn y maes hwn. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd archwiliadau Credydau ar gyfer Glanhau (C4C) ym mis Ionawr 2020. Gwnaethant gyfrifo cydymffurfiaeth gyffredinol swyddogaethol â gofynion glanhau o 95.40% ar ward 11, a 94% ar ward 7. Cafodd y lefelau cydymffurfio uchel hyn eu cwestiynu yn ystod yr arolygiad a chodwyd materion yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn mewn perthynas â lefel y llwch a gofynion glanhau eraill ar y ddwy ward.

Gwnaeth yr adran Cyfleusterau Gwesty ddarparu pecynnau sefydlu wedi'u dogfennu i ni a oedd yn cynnwys hyfforddiant ymarferol, rolau a chyfrifoldebau a dyletswyddau ar gyfer y staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod ymdrechion yn cael eu gwneud i recriwtio nyrsys cofrestredig ar y ddwy ward a dirprwy rheolwr ward ar ward 11
- Bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu a'u dogfennu ar gyfer staff ar ward 11 a bod cofnodion yn cael eu dosbarthu er gwybodaeth i'r staff ac er mwyn iddynt eu hadolygu
- Yr eir i'r afael ag adroddiadau gan staff sy'n nodi bod rheolwyr wedi gwahaniaethu yn eu herbyn ac yr ymchwilir i'r adroddiadau hynny
- Bod y staff yn cael gwybod am gynnwys y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Ar ddydd yr arolygiad, roedd nifer priodol o'r staff ar y rotas ar gyfer y ddwy ward yn unol â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016¹². Roedd lefelau staff nyrsio y cytunwyd arnynt yn cael eu harddangos wrth fynedfa'r ddwy ward. Dywedodd prif nyrs y ward ar ward 7 wrthym fod y Ddeddf wedi ysgogi'r angen am fwy o staff cofrestredig ar sifftiau. O ganlyniad, mae staff ychwanegol wedi cael eu hychwanegu at y rotas yn unol â gofynion y Ddeddf ac aciwtedd¹³ y cleifion.

Cawsom wybod bod gan y ddwy ward nifer sylweddol o swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig ar fandiau pump a chwech. Gwnaed ymdrechion i recriwtio dirprwy reolwr ward a chwe nyrs gofrestredig ar ward 11. Fodd bynnag, nid

¹² Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff byrddau iechyd ystyried darparu lefelau priodol o staff nyrsio, a sicrhau eu bod yn darparu digon o nyrsys er mwyn galluogi'r nyrsys i gael amser i ofalu am eu cleifion yn sensitif.

¹³ Adnoddau nyrsio y mae eu hangen i ddarparu gofal diogel.

oedd llawer o ymgeiswyr, os o gwbl. Roedd ward 7 yn gweithredu ar 50% o'r gweithlu presennol o nyrsys cofrestredig. Roedd y ddwy ward yn defnyddio staff asiantaeth rheolaidd er mwyn sicrhau parhad gofal. Er bod prinder o ran gweithlu parhaol, roedd cyfraddau salwch ar ward 7 yn 2.51%. Roedd gan Ward 11 ddau aelod o staff yn absennol o ganlyniad i salwch hirdymor.

Roedd y rota oddi ar ddyletswydd¹⁴ ar ward 7 yn cadarnhau bod y nifer cywir o staff wedi'u cynnwys ar rotas ar gyfer y sifftiau, er bod rhai aelodau o staff yn aml yn gweithio tair sifft nos 12 awr yn syth ar ôl ei gilydd. Dylai'r rheolwyr fod yn ystyriol o'r ffaith y gall gweithio sifftiau nos yn rheolaidd gael effaith ar iechyd a llesiant y staff a'u gallu i fynychu cyfarfodydd ward a bod yn rhan o brosiectau dysgu, mentora, adeiladu tîm ac ymchwil.

Nododd hyfforddiant gorfodol y staff sydd wedi'i gofnodi ar y Cofnod Staffio Electronig¹⁵ fod gan ward 7 gydymffurfiaeth o 81.48% a bod gan ward 11 gydymffurfiaeth o 77.83%. Dywedodd rheolwr y ward ar ward 7 wrthym fod cynlluniau ar waith i sicrhau bod staff newydd yn cwblhau hyfforddiant gorfodol a byddent yn atgoffa pob aelod arall o'r staff i gwblhau'r holl hyfforddiant sydd ei angen yn rheolaidd.

Dywedodd pob aelod o'r staff wrthym yn yr holiaduron fod hyfforddiant, dysgu a datblygu wedi eu helpu i gyflawni eu swydd yn fwy effeithiol ac roedd eu rheolwr wedi'u cefnogi i gyflawni eu hanghenion hyfforddiant. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr ei fod wedi eu helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol er mwyn darparu profiad gwell i gleifion.

Nododd y Cofnod Staffio Electronig fod 97.14% o'r staff ar ward 7, ac 85.7% o'r staff ar ward 11 wedi cael arfarniad staff. Mae hwn yn arfer sy'n werth ei nodi.

¹⁴ Rhestr o'r staff a'r amseroedd y trefnwyd iddynt weithio o fewn cyfnod penodol.

¹⁵ Mae'r Cofnod Staffio Electronig yn system adnoddau dynol a chyflogres integredig a ddefnyddir gan y GIG.

Cawsom wybod bod nyrsys cofrestredig yn cwblhau hyfforddiant sepsis drwy hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys¹⁶ bob blwyddyn a bod hyn yn cael ei ymestyn i weithwyr cymorth gofal iechyd. Nid oedd unrhyw gofnodion ar gael i gadarnhau pa staff oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Rhoddwyd copi o Ganllawiau Rheoli Sepsis ar gyfer Unedau Mamolaeth yn y Bwrdd Iechyd i ni. Roedd y canllawiau hyn yn gyfredol a'r dyddiad adolygu yw 01/03/2022.

Mae'r Rhaglen Ddysgu Ymateb Cyflym i Salwch Acíwt (RRAILS) yn rhaglen ddysgu genedlaethol sy'n canolbwyntio ar leihau niwed ac amrywiad ymhlith cleifion sy'n wynebu risg neu sy'n dioddef o ddirywiad acíwt. Mae'r rhaglen ddysgu hon ar gael drwy hyfforddiant ar-lein y Cofnod Staffio Electronig a chaiff cydymffurfiaeth â hyfforddiant ei monitro.

Cawsom wybod bod y staff yn gallu cael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd ar y system fewnrwyd fewnol.

Dywedodd yr aelodau o staff hynny a gwblhaodd holiadur fod y sefydliad yn eu hannog i weithio fel tîm ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod y sefydliad yn gefnogol. Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin â'r cleifion yn cael eu grymuso i ddweud eu dweud a chymryd camau gweithredu pan fydd materion yn codi.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur fod diwylliant o fod yn agored a dysgu yn y bwrdd iechyd sy'n helpu'r staff i nodi problemau a'u datrys.

Cytunodd bron pob un o'r ymatebwyr mai gofalu am y cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad, a chytunodd y rhan fwyaf ohonynt fod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan y cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno y byddent yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur y gellid dibynnu ar eu rheolwr i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith a dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr fod eu rheolwr yn gefnogol mewn argyfwng personol.

¹⁶ Darperir yr hyfforddiant hwn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol y mae'n bosibl y bydd angen iddynt weithredu fel swyddogion cymorth cyntaf a thrin cleifion sy'n cael trawiad ar y galon hyd nes y bydd y tîm trawiad ar y galon yn cyrraedd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i gyflawni eu gwaith.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur fod eu rheolwr uniongyrchol a'r sefydliad yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod iechyd a llesiant y staff sy'n gweithio sifftiau nos yn aml yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn ogystal â'u gallu i fynychu cyfarfodydd a hyfforddiant yn ystod y dydd
- Bod cydymffurfiaeth gyffredinol â hyfforddiant gorfodol yn gwella ar y ddwy ward
- Bod presenoldeb staff mewn sesiynau hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys yn cael ei ddogfennu.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwn arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Llwynhelyg

Ward/adran: Wardiau 7 ac 11

Dyddiad arolygu: 4 a 5 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod trolïau dadebru yn cael eu newid er mwyn darparu cyfleusterau storio priodol ar gyfer blychau cyffuriau brys er mwyn atal mynediad anawdurdodedig at y cyffuriau sydd wedi'u cynnwys ynddynt. Bod y droriau ar y trolïau yn cael eu storio yn unol â rhestr wirio polisi Dadebru y Bwrdd Iechyd (352) a'u dogfennu fel rhai sydd wedi eu gwirio bob dydd ac ar ôl eu defnyddio.</p>	<p>Safonau 2.6 a 2.9</p>			

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>gwirio bob dydd a bod tystiolaeth o hyn yn cael ei chofnodi.</p> <p>Gwnaethom edrych ar y rhestr wirio ddyddiol ar ward 7 a gwelsom nad oedd unrhyw dystiolaeth wedi ei chofnodi i ddangos bod y cyffuriau a reolir wedi cael eu gwirio ar 24 Rhagfyr 2019 ac 1 a 2 Ionawr 2020.</p> <p>Roedd yr allwedd i'r cabinet cyffuriau a reolir ar ward 7 yn cael ei chadw mewn cabinet ar wahân ac nid gan y person a oedd yn gyfrifol am y ward na'r dirprwy dynodedig fel sy'n ofynnol ym mholisi Meddyginiaethau'r Bwrdd Iechyd. Ar adeg yr arolygiad nid oedd y clo ar y cabinet hwn wedi ei actifadu a gallai pob aelod o'r staff sydd â mynediad i'r ystafell agor y cabinet.</p> <p>Gwnaethom nodi nad oedd ward 11 wedi dogfennu unrhyw wiriadau o dymreddau'r oergell am chwe diwrnod yn ystod mis Ionawr 2020.</p>		<p>Rhoi rhaglen hapwiriadau dyddiol ar waith, i'w chynnal gan y Brif Nyrs, a chyflwyno canfyddiadau mewn cyfarfodydd craffu misol.</p> <p>Symud yr allwedd ac atgoffa pob aelod o staff fod y Nyrs â Chyfrifoldeb yn ei chadw bellach, yn unol â'r Polisi Meddyginiaethau.</p> <p>Cael gwared ar y cabinet ar wahân.</p> <p>Ailddyrannu'r cyfrifoldeb am gynnal gwiriadau ar y staff ar y sifft nos. Yn y gorffennol, mae hyn wedi dangos cydymffurfiaeth lawn ond cafodd ei symud i'r staff dydd am resymau yn ymwneud â'r gweithlu. Mae nifer y pethau sy'n tynnu sylw'r staff yn ystod y dydd wedi cael effaith andwyol ar y cyfraddau</p>	<p>Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Uwch-brif Nyrs, Ward 7</p> <p>Rheolwr Gweithrediadau Safle</p> <p>Uwch-brif Nyrs, Ward 11</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>28/02/2020</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Bod gan y Bwrdd lechyd system ar waith i sicrhau bod pob claf yn gwisgo bandiau adnabod cleifion neu fod asesiad risg cyfatebol wedi cael ei gynnal er mwyn sicrhau y gall staff adnabod cleifion a darparu'r gofal cywir iddynt.</p> <p>Gwelsom nad oedd dau glaf ar ward 7 a dau glaf ar ward 11 yn gwisgo bandiau adnabod cleifion ar eu harddyrnau. Gall diffyg bandiau adnabod cleifion ar arddyrnau arwain at gam-adnabod a pheryglu gofal a diogelwch cleifion.</p>	Safon 3.1	<p>cydymffurfio, felly staff y sifft nos fydd yn gyfrifol am hyn unwaith eto.</p> <p>Rhoi rhaglen hapwiriadau wythnosol ar waith, i'w chynnal gan Brif Nyrs y Ward, a chyflwyno canfyddiadau mewn cyfarfodydd craffu misol</p> <p>Anfon memo i bob adran yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg i bwysleisio safon ddisgwyliedig staff nyrsio, ac anfon copi o'r memo hwn at Benaethiaid Nyrsio sy'n gyfrifol am adrannau cleifion mewnol ar draws y Bwrdd lechyd.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>14/02/2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Bod drysau tân yn cael eu gosod wrth fynedfa ward 7 yn unol â gofynion yr hysbysiad Gorfodi a gyflwynwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru er mwyn sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn amddiffyn cleifion, staff a'r cyhoedd yn ddigonol os bydd tân.</p> <p>Cawsom wybod nad oedd y drysau wrth fynedfa ward 7 yn ddrysau tân. Cyflwynwyd Hysbysiad Gorfodi gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd i osod drysau tân erbyn 30 Tachwedd 2019. Cawsom wybod bod disgwyl i'r drysau hyn gael eu newid ym mis Medi 2020 ar y cynharaf fel rhan o gam 2 o'r gwaith gwella.</p>	Safon 3.1	<p>Sefydlu Grŵp Gorchwyl Rheoli Meddyginiaethau ar draws y Bwrdd lechyd er mwyn sicrhau bod prosesau Rheoli Meddyginiaethau diogel ar waith.</p> <p>Mae gan y Bwrdd lechyd gynllun wedi'i strwythuro'n llawn ar gyfer diogelwch tân yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg a ddatblygwyd mewn ymateb i Hysbysiad Gorfodi gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.</p>	<p>gyfer Nyrsio ac Ansawdd Gweithredol</p> <p>Cyfarwyddwr Ystadau/Pennaeth Diogelwch Tân</p>	31/08/2021

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Safon 2.9	<p>Mae'r cynllun a gyflwynwyd i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ddull gweithredu cam wrth gam sy'n ein galluogi i ymgymryd â gwaith ymlaen llaw yn brydlon iawn gan ddatblygu'r elfen waith barhaol drwy broses Achos Busnes.</p> <p>Yn y cynllun hwn, ymgymerir â'r holl ofynion tân o ran llwybrau dianc a nodwyd yn yr Hysbysiad Gorfodi uchod, yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg rhwng mis Mai 2020 a mis Awst 2021. Mae'r rhaglen hon yn cael ei hystyried gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar hyn o bryd ac rydym yn aros am eglurhad pellach ganddynt ar yr amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer y gwaith hwn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd rhan lawn yn y broses hon ac mae'n gefnogol o'r</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Bod system effeithiol y gellir ei holrhain ar waith er mwyn sicrhau y caiff rhaglen wasanaethu ei dilyn a'i chwblhau ar gyfer gwelyau cleifion ar ward 11.</p> <p>Bod system effeithiol y gellir ei holrhain ar waith er mwyn sicrhau y caiff rhaglen wasanaethu ei dilyn a'i chwblhau ar gyfer cyfarpar clinigol gan gynnwys pypiau matresi a pheiriant ECG ar ward 11.</p> <p>Gwnaethom edrych ar welyau proffil uchel/isel ar ward 11 a gwelsom nad oedd gan rai gwelyau gofnodion gwasanaethu o gwbl ac roedd eraill heb gael eu gwasanaethu ers 2017. Gall peidio â gwasanaethu gwelyau, neu wneud hynny'n anaml, beryglu defnydd effeithiol o'r gwely ac, yn ei dro, beryglu diogelwch cleifion.</p>		<p>dull gweithredu a gymerir gan y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn cynnwys drysau wrth fynedfa ward 7 ac unrhyw Ddrysau Tân hanfodol eraill sydd ar lwybrau dianc yr Ysbyty hwn.</p> <p>Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi argymhell yr ymgwymerir â gweddill y gwaith ar y Wardiau ac yn yr Adrannau fel ail gam i'r uchod.</p>	<p>Pennaeth Peirianeg Glinigol</p> <p>Pennaeth Peirianeg Glinigol</p>	<p>Mai 2020</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Gwelsom enghreifftiau o gofnodion gwasanaethu pypmiau matresi ar ward 11 a oedd yn nodi bod y cyfnod gwasanaethu wedi mynd heibio a bod angen iddynt gael eu gwasanaethu. Gwelsom gofnod gwasanaethu ar gyfer peiriant Electrocardiogram ar ward 11 a oedd yn nodi bod angen ei wasanaethu ar 4/10/19. Gall peidio â gwasanaethu cyfarpar clinigol, neu wneud hynny'n anaml, beryglu defnydd effeithiol o'r cyfarpar ac, yn ei dro, beryglu diogelwch cleifion.</p>		<p>Mae contract gyda chwmni allanol i wirio gwelyau cleifion mewnol wedi dechrau (03/02/2020) ar draws yr ysbyty. Datblygu cynllun gwasanaeth a gaiff ei oruchwyllo gan yr Adran Beirianeg Glinigol.</p> <p>Sicrhau bod gan bympiau matresi hanes gwasanaethu cyfredol.</p> <p>Cwblhau gwaith gwasanaethu.</p>	<p>Pennaeth Peirianeg Glinigol</p>	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Janice Cole-Williams

Swydd: Rheolwr Cyffredinol, Ysbyty Llwynhelyg

Dyddiad: 13/02/2020

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty:Llwynhelyg

Ward/adran:Wardiau 7 ac 11

Dyddiad arolygu: 4 a 5 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â rhoi'r gorau i smygu a sepsis ar gael ar y ddwy ward	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	<p>Dylid arddangos taflenni rhoi'r gorau i smygu yn ardal wybodaeth y ward a sicrhau eu bod ar gael yno.</p> <p>Dylid arddangos poster sepsis ym mhob ardal glinigol. Dylid arddangos taflenni sepsis yn ardal wybodaeth y ward a sicrhau eu bod ar gael yno.</p>	<p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p> <p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>30 Medi 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Sicrhau bod Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn cael ei hadolygu a'i diweddarau</p> <p>Sicrhau bod y staff yn sicrhau bod sgysiau â chleifion yn cael eu cynnal yn dawel er mwyn diogelu cyfrinachedd cleifion.</p> <p>Sicrhau bod toiledau a chyfleusterau cawod dynodedig i ddynion a menywod yn cael eu darparu er mwyn sicrhau y caiff urddas cleifion ei sicrhau</p> <p>Sicrhau bod ymdrechion yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y dŵr yn cael ei gadw ar y tymheredd cywir ar ward 7</p> <p>Sicrhau bod staff ar ward 7 yn cael eu hysbysu ynghylch eu dyletswydd i gadw gwybodaeth cleifion yn gwbl breifat a chyfrinachol drwy gau'r bwrdd cipolwg pan na fydd yn cael ei ddefnyddio, a chaiff ward 11 ei annog i ddefnyddio'r bwrdd gan sicrhau bod adrannau yn cael eu cwblhau a bod y wybodaeth yn gyfredol.</p>	4.1 Gofal ag Urddas	<p>Adolygwyd Strategaeth y Gweithlu ym mis Ionawr a mis Chwefror. Cafodd yr ymgynghoriad ym mis Mawrth ei ohirio o ganlyniad i Covid. Dylid cwblhau'r ymgynghoriad a chyflwyno fersiwn derfynol.</p> <p>Dylid anfon memo at y staff a'i arddangos er mwyn sicrhau bod y staff yn hybu'r defnydd o'r cyfleuster ystafell ddydd a'r ystafelloedd amlddisgyblaeth i gefnogi sgysiau a chynnal cyfrinachedd, urddas a phreifatrwydd.</p> <p>Mae gan yr holl doiledau a chawodydd arwyddion ar gyfer dynion a menywod bellach er mwyn cefnogi urddas y cleifion.</p>	<p>Anmarie Thomas</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Duncan Evans, Pennaeth</p>	<p>30 Medi 2020</p> <p>30 Medi 2020</p> <p>Cwblhawyd y Cam Gweithredu</p> <p>Cwblhawyd y Cam Gweithredu</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Cafodd y mater ei ddatrys gan yr adran Ystadau a chafodd y thermostat ei newid.</p> <p>Dylid anfon memo at staff ar draws yr holl feysydd clinigol er mwyn eu hatgoffa bod angen cynnal cyfrinachedd cleifion mewn perthynas ag arddangos gwybodaeth.</p> <p>Dylid atgyfnerthu'r ffaith bod angen cau byrddau cipolwg yng nghyfarfodydd yr Uwch-brif Nyrsys.</p> <p>Prif nyrs ward 11 yn hybu gwneud defnydd mwy effeithiol o'r bwrdd drwy gwblhau adrannau gwybodaeth.</p> <p>Caiff hapwiriadau arsylwadol eu cynnal am 6 wythnos er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth o ran cau'r byrddau cipolwg a'u defnyddio'n effeithiol. Caiff y</p>	<p>Gweithrediadau'r Safle</p> <p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr</p>	<p>31 Gorffennaf 2020</p> <p>31 Gorffennaf 2020</p> <p>30 Hydref 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		canlyniadau eu trafod yn y cyfarfodydd craffu misol.	Nyrsio, Meddygaeth	
Roedd gwybodaeth yn ymwneud â chydymffurfiaeth y staff â hylendid dwylo, niwed a wnaed i gleifion o ganlyniad i friwiau pwyso, achosion o gleifion yn cwmpo a chydymffurfiaeth â'r amserlen glanhau yn cael ei chyflwyno'n amserol ar hysbysfyrdau'r ward	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Diweddarau'r bwrdd Gwybod Sut Rydym yn Perfformio bob mis, a thrafod y canlyniadau yn y cyfarfod craffu misol. Cwblhau camau gweithredu i wella meysydd a oedd yn peri pryder, a rhannu arfer da yn y cyfarfodydd craffu misol. Bod hapwiriadau yn cael eu cynnal yn fisol am dri mis.	Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth	30 Tachwedd 2020
Sicrhau bod y rheolwyr yn cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl Sgoriau Rhybudd Cynnar sy'n uwch na 3 yn ysgogi'r staff i ystyried sgrinio ar gyfer sepsis. Sicrhau bod y staff yn ymateb i glychau galw yn brydlon er mwyn sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu'n llawn.	5.1 Mynediad amserol	Bod archwiliad sgrinio sepsis yn cael ei gynnal bob mis gan y tîm dadebru a bod y canfyddiadau'n cael eu bwydo yn ôl i bob maes clinigol. Caiff hyn ei fonitro drwy gyfarfodydd llywodraethiant y gyfarwyddiaeth bob mis. Bod archwiliadau arsylwadol ar hap yn cael eu cwblhau dros gyfnod o 2 fis. Adolygu a monitro adborth cleifion yn barhaus.	Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth	Cwblhawyd 30 Medi 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Sicrhau bod cynlluniau rhyddhau cleifion o'r ysbyty a phhecynnau gofal priodol yn cael eu trefnu ar gyfer cleifion cyn iddynt gael eu rhyddhau a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd	6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth	<p>Mae 'adnodd hapwiriadau dyddiol' prif nyrs y ward yn cefnogi'r gwaith o fonitro'r gydymffurfiaeth â'r ddogfennaeth a'r camau y mae angen eu cymryd. Caiff y canfyddiadau eu trafod bob mis â'r Uwch Reolwr Nyrsio wrth gymeradwyo HCMS.</p> <p>Dylai'r Uwch Reolwr Nyrsio gynnal hapwiriadau ar rowndiau bwrdd y ward. Caiff y canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd eu trafod yn y cyfarfodydd craffu misol.</p> <p>Caiff llwybrau Adfer ac Asesu wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty eu treialu ar ward 7 ym mis Gorffennaf 2020.</p> <p>Cynhelir cyfarfod adolygu bob wythnos er mwyn trafod yr holl gynlluniau rheoli cleifion â'r Uwch-reolwyr Nyrsio, Prif Nyrsys y Ward ac aelodau o'r Tîm Amlddisgyblaethol.</p>	<p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>31 Awst 2020</p> <p>31 Awst 2020</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Sicrhau bod y rheolwyr yn adolygu ac yn diweddarau'r "polisi Rheoli ac Ymchwilio i Ddigwyddiadau"</p> <p>Sicrhau bod y ddwy ward yn darparu gwybodaeth i'r cleifion a'r ymwelwyr am y CIC</p> <p>Sicrhau bod gan gleifion ar ward 11 fynediad i daflenni gwybodaeth am Wasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion.</p> <p>Sicrhau bod gwybodaeth am drefniadau eiriolaeth ar gael ar ward 11</p> <p>Sicrhau bod y llungopiwr ar ward 7 yn cael ei symud i ardal addas gan sicrhau y caiff cyfleusterau ystafell ddydd y cleifion eu diogelu er mwyn gwella profiad y claf.</p>	6.2 Hawliau pobl	<p>Polisi Rheoli a Datrys Pryderon 'Gweithio i Wella'</p> <p>(Digwyddiadau, Cwynion a Hawliadau) Daeth y polisi'n weithredol ar 16.6.20 a dylid ei adolygu ar 9.6.23</p> <p>Dylid cael gafael ar daflenni gwybodaeth gan y CIC a'u harddangos ym mhob ardal glinigol ac ardal gymunedol ym mhob rhan o'r ysbyty.</p> <p>Mae Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion bellach wedi cael ei sefydlu ym mhob ardal. Caiff taflenni gwybodaeth eu harddangos ym mhob ardal.</p> <p>Dylid cael gafael ar daflenni gwybodaeth gan y gwasanaeth eiriolaeth a'u harddangos ym mhob ardal glinigol ac ardal gymunedol ym mhob rhan o'r ysbyty.</p>	<p>Y Gyfarwyddiaeth Nyrso</p> <p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrso, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p> <p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrso, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p> <p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrso, Ysbyty</p>	<p>Cwblhawyd – cymeradwyw yd 9.6.20</p> <p>31 Awst 2020</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>30 Medi 2020</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae'r llungopiwr wedi cael ei symud o ward 7. Mae'r cyfleusterau ystafell ddydd ar gael.	Cyffredinol Llwynhelyg Janice Cole-Williams, Rheolwr Cyffredinol, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg	
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Sicrhau bod pob ardal ar y wardiau yn cael ei glanhau i safon uchel	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Cynnal archwiliadau glanhau misol gan gynnwys agweddau nyrsio, glanhau ac ystadau. Caiff y canlyniadau eu hadolygu gan y Pennaeth Nyrsio a'r Pennaeth Cyfleusterau. Mae angen cydymffurfiaeth o 95% neu fwy.	Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg	30 Tachwedd 2020
Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i osod cyfleusterau storio priodol ar y ddwy ward er mwyn sicrhau amgylchedd sy'n rhydd rhag peryglon baglu				30 Tachwedd 2020
Sicrhau bod yr holl hylifau a chemegion yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo			Bydd yr Uwch Reolwr Nyrsio yn cynnal archwiliad amgylcheddol ar hap. Caiff y canfyddiadau eu trafod yng	Gina Hughes, Uwch Reolwr

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Sicrhau bod diffoddwyr tân yn cael eu gosod yn gywir ac nad ydynt o'r golwg y tu ôl i ddrws agored</p> <p>Sicrhau yr eir i'r afael â'r dŵr sy'n gollwng yn swyddfa'r brif nyrs ar ward 7 a bod y bwced yn cael ei symud</p>		<p>ngyfarfodydd craffu misol y prif nyrsys gyda'r Uwch-reolwyr Nyrsio a'r Pennaeth Nyrsio.</p> <p>Adolygu'r cyfleusterau storio ym mhob ardal er mwyn sicrhau bod cyfleusterau y gellir eu cloi ar gael.</p> <p>Cyfarfod â'r staff er mwyn cynghori ar storio hylifau a chemegion yn gywir a sicrhau ymwybyddiaeth o hynny. Dylid codi ymwybyddiaeth o bolisi COSHH ymhlith y staff a'u cyfeirio ato. Dylid cwblhau rhestr llofnodi i gadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r prosesau cywir.</p> <p>Adolygwyd gan y Swyddog Tân, methu eu symud, ond mae arwyddion wedi cael eu rhoi ar y drws i roi gwybod bod y diffoddwyr tân y tu ôl i'r drws pan fydd y drws ar agor.</p>	<p>Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Janice Cole-Williams, Rheolwr Cyffredinol, Ysbyty</p>	<p>30 Tachwedd 2020</p> <p>30 Medi 2020</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae'r adran Ystadau wedi newid y teil ar y nenfwd.	Cyffredinol Llwynhelyg Duncan Evans, Pennaeth Gweithrediadau'r Safle, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg	
Yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), os nad yw unigolyn yn gallu symud ei hun, dylai gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ei helpu i symud er mwyn ei atal rhag cael briwiau pwyso. Am resymau diogelwch, argymhellir y dylid symud oedolion sy'n wynebu risg bob chwe awr o leiaf a bob pedair awr ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg uchel	2.2 Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd	Adolygiadau craffu misol ar achosion o friwiau pwyso gydag Uwch-reolwyr Nyrsio a'r Pennaeth Nyrsio. Bydd yr Uwch Reolwr Nyrsio yn cynnal hapwiriadau o'r archwiliad o ddogfennaeth er mwyn sicrhau bod canllawiau yn cael eu dilyn. Sicrhau y caiff y rhestr llofnodi ei chwblhau fel bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o ganllawiau NICE a'u bod wedi'u darllen.	Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth	30 Medi 2020 30 Medi 2020 30 Medi 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Sicrhau bod pob ardal ar y ward yn cael ei glanhau i safon uchel</p> <p>Sicrhau bod asesiad risg yn cael ei gynnal ar gyfer cleifion mewn ystafelloedd ochr sydd â haint er mwyn cadarnhau a yw'n briodol i ddrysau'r ystafelloedd gael eu cadw ar agor</p>	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	<p>Fel 2.1 uchod</p> <p>Dylai'r staff ail-ymgyfarwyddo â pholisi rheoli heintiau. Defnyddio memo a rhestr llofnodi i gadarnhau bod y staff yn ymwybodol o'r broses gywir.</p> <p>Bydd yr Uwch-reolwyr Nyrsio yn cynnal hapwiriadau wythnosol am 6 wythnos er mwyn sicrhau bod canllawiau yn cael eu dilyn.</p>	<p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p>	<p>30 Medi 2020</p> <p>30 Medi 2020</p>
Sicrhau bod prydau yn cael eu darparu i gleifion mewn modd amserol er mwyn atal y bwyd rhag mynd yn oer ac yn wlyb o ganlyniad i gyddwysiad	2.5 Maeth a Hydradu	<p>Hapwiriadau wythnosol i adolygu amseroldeb darparu prydau.</p> <p>Adolygu a monitro adborth cleifion yn barhaus.</p>	<p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p>	<p>31 Hydref 2020</p> <p>31 Hydref 2020</p>
Sicrhau bod hylifau mewnwythiennol yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd neu ystafell dan glo.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Gosod cloeon bysellfwrdd ar y drws er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.	Duncan Evans, Pennaeth Gweithrediadau'r	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Safle, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg	
<p>Sicrhau bod y polisi Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid, yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019</p> <p>Sicrhau bod hyfforddiant ar asesiadau galluedd meddyliol ac atgyfeiriadau amddifadu o ryddid yn cael ei roi i staff ar ward 11</p> <p>Sicrhau bod asesiad o alluedd meddyliol claf yn cael ei gwblhau a'i ddogfennu'n llawn a bod camau amserol yn cael eu cymryd i sicrhau bod budd pennaf y claf yn cael ei ddiogelu.</p>	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	<p>Caiff protocol ei lunio er mwyn rheoli rhyngwyneb y Ddeddf Iechyd Meddwl/Deddf Galluedd Meddyliol. Caiff ymgynghoriad ei gynnal ar hyn o bryd. Caiff y fersiwn derfynol ei chymeradwyo gan Grŵp y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Chydsynio.</p> <p>Caiff hyfforddiant ei drefnu a'i ddarparu i bob aelod o'r staff ar ward 11, a chaiff rhestr llofnodi ei llunio.</p> <p>Dylai'r wybodaeth a gesglir gan Uwch-reolwyr Nyrsio wrth iddynt gynnal hapwiriadau a hybu tystiolaeth atgyfeirio briodol o hapwiriadau dros ddau fis gael ei choladu. Caiff canfyddiadau eu trafod yn y cyfarfodydd craffu misol.</p>	<p>Caiff protocol ei lunio er mwyn rheoli rhyngwyneb y Ddeddf Iechyd Meddwl/Deddf Galluedd Meddyliol. Caiff ymgynghoriad ei gynnal ar hyn o bryd. Caiff y fersiwn derfynol ei chymeradwyo gan Grŵp y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Chydsynio.</p> <p>Caiff hyfforddiant ei drefnu a'i</p>	<p>31 Awst 2020</p> <p>30 Tachwedd 2020</p> <p>30 Tachwedd 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>ddarparu i bob aelod o'r staff ar ward 11, a chaiff rhestr llofnodi ei llunio.</p> <p>Dylai'r wybodaeth a gesglir gan Uwch-reolwyr Nyrsio wrth iddynt gynnal hapwiriadau a hybu tystiolaeth atgyfeirio briodol o hapwiriadau dros ddau fis gael ei choladu. Caiff canfyddiadau eu trafod yn y cyfarfodydd craffu misol.</p>	

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Sicrhau bod sgriniau cyfrifiaduron yn cael eu cloi pan na fydd neb i ofalu amdanynt er mwyn atal achos posibl o dorri cyfrinachedd</p> <p>Sicrhau bod nodiadau achos cleifion yn cael eu cadw dan glo yn briodol pan na fyddant yn cael eu defnyddio er mwyn atal mynediad anawdurdodedig iddynt</p>	3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	<p>Trafod arbedwyr sgrin â'r adran TG</p> <p>Atgoffa staff am y safonau Llywodraethu Gwybodaeth.</p> <p>Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth.</p> <p>Arddangos posteri ystyried Llywodraethu Gwybodaeth.</p> <p>Dylid cynnal hapwiriadau bob chwe wythnos er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth o ran defnyddio nodiadau achos cleifion.</p>	<p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p>	<p>30 Medi 2020</p> <p>30 Medi 2020</p> <p>30 Medi 2020</p> <p>30 Medi 2020</p> <p>30 Hydref 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Nyrsio, Meddygaeth	
<p>Dylid llofnodi, dyddio a nodi amseroedd ar nodiadau nyrsio er mwyn darparu tystiolaeth o ofal amserol.</p> <p>Sicrhau bod cynlluniau rhyddhau cleifion o'r ysbyty a gofynion gofal yn cael eu hystyried a'u dogfennu'n llawn er mwyn sicrhau cynlluniau rhyddhau cleifion o'r ysbyty effeithlon ac effeithiol.</p>	3.5 Cadw cofnodion	<p>Cwblhau archwiliad o ddogfennaeth ddwywaith y flwyddyn.</p> <p>Dylid anfon memo at y staff i'w hatgoffa o'r safonau disgwylidig o ran dogfennaeth.</p> <p>Mae hapwiriadau bob pythefnos ar waith er mwyn hybu cydymffurfiaeth.</p> <p>Caiff sesiynau hyfforddiant ar ryddhau cleifion o'r ysbyty eu trefnu er mwyn hybu gwaith cynllunio effeithiol o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty.</p>	<p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p>	<p>30 Tachwedd 2020</p> <p>30 Tachwedd 2020</p> <p>30 Tachwedd 2020</p> <p>30 Tachwedd 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Sicrhau bod ymdrechion yn cael eu gwneud i recriwtio nyrsys cofrestredig ar y ddwy ward a dirprwy rheolwr ward ar ward 11</p> <p>Sicrhau bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu a'u dogfennu ar gyfer staff ar ward 11 a bod cofnodion yn cael eu dosbarthu er gwybodaeth i'r staff ac er mwyn iddynt eu hadolygu</p> <p>Sicrhau bod y staff yn cael gwybod am gynnwys y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015</p> <p>Sicrhau yr eir i'r afael ag adroddiadau gan staff sy'n nodi bod rheolwyr wedi gwahaniaethu yn eu herbyn ac yr ymchwilir i'r adroddiadau hynny</p>	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>Caiff pob ymdrech ei wneud i gefnogi'r gwaith o recriwtio nyrsys cofrestredig drwy system TRAC.</p> <p>Cafodd aelodau o staff eu recriwtio ar Fand 6 a'u penodi ar gontract tymor sefydlog.</p> <p>Cynnal cyfarfodydd ward rheolaidd a rhannu'r cofnodion â'r tîm</p> <p>Sicrhau bod y ddogfen ar gael i bob aelod o'r staff ar ward 7 ac 11. Sicrhau y caiff y rhestr llofnodi ei chwblhau.</p> <p>Hybu gwerthoedd y Bwrdd Iechyd. Sicrhau bod staff yn cael eu hannog i fod</p>	<p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>31 Hydref 2020</p> <p>31 Hydref 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>yn agored ac yn onest ac yn ymwybodol o bolisiau'r Bwrdd Iechyd er mwyn cefnogi unrhyw bryderon.</p> <p>Gweithio gyda'r Tîm Sicrhau Ansawdd a Diogelwch er mwyn hybu'r Model Lleisio Barn yn Ddiogel a'r dull gweithredu hwnnw yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg.</p> <p>Enwebu cynrychiolydd o Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg i fod yn aelod o Weithgor Lleisio Barn yn Ddiogel y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Cael cyflwyniad ar Leisio Barn yn Ddiogel yng Nghyfarfod Ansawdd a Llywodraethu Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg ym mis Awst.</p>	<p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p> <p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p> <p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty</p>	<p>30 Tachwedd 2020</p> <p>31 Gorffennaf 2020</p> <p>31 Awst 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Cyffredinol Llwynhelyg	
<p>Sicrhau bod iechyd a llesiant y staff sy'n gweithio sifftiau nos yn aml yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn ogystal â'u gallu i fynychu cyfarfodydd a hyfforddiant yn ystod y dydd</p> <p>Sicrhau bod cydymffurfiaeth gyffredinol â hyfforddiant gorfodol yn gwella ar y ddwy ward</p> <p>Sicrhau bod presenoldeb staff mewn sesiynau hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys yn cael ei ddogfennu</p>	7.1 Y Gweithlu	<p>Caiff y staff eu hannog i fynychu cyfarfodydd a chylchdroi'n rheolaidd gan symud i sifftiau dydd er mwyn cael hyfforddiant a mynd i gyfarfodydd. Bydd yr Uwch Reolwr Nyrsio yn adolygu'r niferoedd sy'n mynychu'r hyfforddiant/cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei hwyluso.</p> <p>Cymorth parhaus i'r staff ar gyfer hyfforddiant gorfodol. Adolygu cydymffurfiaeth yn y cyfarfodydd craffu a llywodraethu misol. WGH USC Mandatory training</p> <p>Caiff presenoldeb mewn sesiynau hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys ei gofnodi ar daflen bresenoldeb a'i lanlwytho i'r Cofnod Staffio Electronig.</p>	<p>Gina Hughes, Uwch Reolwr Nyrsio, Meddygaeth</p> <p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p> <p>Carol Thomas, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg</p>	<p>30 Tachwedd 2020</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Carol Thomas

Swydd: Pennaeth Nyrsio

Dyddiad: 9 Gorffennaf 2020